

ECO'R WYDDFA

Rhif 156

MAWRTH 1990

Pris 20c

SEINDORF YN MYND O NERTH I NERTH

Daeth llwyddiant arall i ran Seindorf Arian Deiniolen.

Y mae'r aelodau wedi cael cyfnod arbennig o lewyrchus yn ddiweddar ond cydnabyddir y diweddaraf o'u hymdrechion fel yr orau eto o safbwynt nifer y cystadleuwyr a'r gwobrau a ddaeth i'w rhan. Yn wir, roedd aelod o Ddeiniolen ymhlith y buddugwyr mewn deg o'r pymtheg adran ym Mhencampwriaethau Unawdau, Deuawdau a Phedwarawdau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ym Mangor ar Chwefror 17.

Cafwyd chwech gwobr gyntaf, tair ail wob, pedair trydydd gwobr. Dim rhyfedd felly iddynt ennill Tarian Cei Cona i'r Seindorf gyda'r mwyaf o bwytiau.

Wrth fodd calon aelodau hŷn y band oedd fod chwech aelod yn cystadlu am y tro cyntaf yn yr adran dan 10 oed — arwydd amlwg o gryfder y seindorf y dyddiau yma ac o obaith i'r dyfodol.

Dyma'r canlyniadau: Bethan Williams, 3ydd Unawd dan 10 oed; Gavin Saynor, 1af Unawd 12-14 oed a 1af Air Varie dan 14 oed; Martin Williams, 2il Unawd 12-14 oed; Elir ac Euros Williams cydradd bedwerydd Unawd 12-14 oed ac ail Deuawd 12-14 oed. Daeth Euros hefyd yn 3ydd ar Air Varie dan 14 oed. Iwan Williams, 1af Air Varie 14-18 oed ac ail ar yr Unawd 16-18 a 1af gyda Dylan W. Williams ar y Ddeuawd 14-18 oed; Dylan C. Jones a Siôn Wyn Hughes, 3ydd Deuawd 14-18 oed; Colin Williams, 3ydd 'Slow Melody' dros 18 oed. Daeth y ddau bedwarawd (dan 14 a 14-18 oed) yn gyntaf.

Llongyfarchiadau hefyd i Iwan Williams sydd wedi ei dderbyn i

Goleg Cerdd Salford ac a fydd yn aelod o Seindorf y Telecom Prydeinig ym Manceinion yn y dyfodol.

Ac eto, rhagor o lwyddiant — y tro hwn yn eisteddfodau cylch yr Urdd. Aelodau ieuentid Deiniolen, sef Eilir Williams, Martin Williams a Siôn Wyn Hughes oedd y cyntaf, ail a'r trydydd yn yr unawd prês. A'r pedwarawd — Eilir Williams, Euros Williams, Siân Griffith a Dyfan Siôn enillodd yr Ensemble dan 15 oed. Gavin Saynor enillodd yr unawd prês yng Nghylch Bangor Ogwen. Edrychwn ymlaen at ddilyn eu hynt yn Eisteddfod y Sir.



Martin Williams, ail ar unawd 12-14 oed.



Pawb o'r Seindorf fu'n cystadlu. Nid oedd Bethan Williams, Sian E. Thomas, Dylan Hughes, Kelvin Lewis a Gavin Saynor ar gael pan dynnwyd y llun.

COFIWCH AM NOSON DEYRNGED Dr DAN HUGHES


yn Ysgol Brynrefail, Llanrug

Nos Iau, Ebrill 5,
am 7.30 o'r gloch


MYNEDIAD AM DDIM
CROESO CYNNES I BAWB



Gavin Saynor, dwy wob gyntaf 12-14 oed.



Colin Williams, 3ydd ar unawd dros 18 oed.



Y ddau bedwarawd buddugol — Rhes gefn (14-18 oed): Iwan Williams, Dylan Cole Jones, Siôn Hughes a Dylan Williams. Yn eistedd (dan 14 oed): Euros Williams, Dyfan Siôn, Siân Griffith ac Eilir Williams.

RHAGOR O DDONIAU CERDDOROL

Ddiwedd Ionawr gwahoddwyd yr offerynwyr ieuanc a enillodd y marciau uchaf mewn arholiadau cerdd a gynhaliwyd yn yr ardal yn ddiweddar i berfformio un o'i darnau arholiad mewn cyngerdd arbennig. Cynhaliwyd y cyngerdd yn Neuadd Powis, Coleg y Brifysgol, Bangor, nos Fawrth, Ionawr 30.

Ymhlith y 24 o'r talentau roedd pump o'r fro hon. Mae Dyfan Siôn a Martin Llywelyn Williams o Ddeiniolen, eisoes wedi eu henwi ar y dudalen hon. Mae'r ddau wedi ennill eu gradd 5, y naill ar yr ewffoniwm a'r llall ar y flugelhorn.

Y piano yw offeryn Joanna Thornton o Lanberis ac mae hi wedi cyrraedd gradd 2.

O Fethel y daw Aled Lloyd Griffiths ac mae yntau'n canu'r ewffoniwm — ac wedi ennill y chweched gradd. mae Gwenan Mair Roberts o Lanrug wedi cyrraedd gradd 7 ac roedd hi'n canu'r ffidil. Mrs Megan Roberts, mam Gwenan, oedd yn cyfeilio i bob un ohonynt, ar wahan i Joanna, wrth gwrs, yn y cyngerdd.

PRIS YR ECO I GODI

Oherwydd cynnydd cyson yng nghostau cynhyrchu'r papur nid oes gennym ddewis ond i godi pris yr Eco. O fis Ebrill ymlaen bydd copi o Eco'r Wyddfa yn costio 25c.

Codwyd pris yr Eco ddiwethaf o 15c i 20c yn Ebrill 1982 — wyth mlynedd yn ôl.

ECO'R WYDDFA

RHIF 156
MAWRTH 1990

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon.

Cyhoeddwyd gyda chymorth
Cymdeithas Gelfyddydau
Gogledd Cymru.

SWYDDOGION A GOHEBWYR GOLYGYDD NEWYDDION CYFFREDINOL:

Twrog Jones, Pros Kairon,
Glanffynnon, Llanrug (C'fon 4051)

GOLYGYDD ERTHYGLAU:

Dafydd Whiteside Thomas, Bron-y-
Nant, Pontrhyallt, Llanrug (C'fon
3515)

GOLYGYDD NEWYDDION PENTREFI:

Nant Roberts, Arwel, Pontrhyallt
(870760)

GOLYGYDD CHWARAEON:

Dafydd Evans, Sycharth, Penisarwaun
(Llanberis 872407)

ECO'R IFANC:

Mrs Nan Humphreys, Pant Bryngwyn,
Tanycoed (C'fon 5668)

DYDDIADUR Y MIS:

Mrs Olwen Llywelyn, Pant Afon Bach,
Llanrug (Waunfawr 200)

FFOTOGRAFFWYR:

Gwynhaf Jones, 60 Glanffynnon,
Llanrug (C'fon 4669)

Gwynhaf Hughes, Glasgoed, Llanrug
(C'fon 77263)

TREFNYDD HYSBYSEBION:

John Roberts, Bedw Gwynion, Llanrug
(C'fon 5605)

TREFNYDD GWERTHIANT:

Arwyn Roberts, Hafle, Ffordd yr Orsaf,
Llanrug (C'fon 5510)

TREFNYDD ARIANNOL:

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (C'fon 4839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST:

Mrs E Whiteside Thomas, Dolwar,
Llanrug (C'fon 4778)

GOHEL YR PENTREFI:

Dyma'r bobl i gysylltu â nhw yn eich
ardaloedd.

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran,
(Portdinorwig 670726)

BRYNREFAIL: Miss Lowri Prys
Roberts, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Mrs Beryl Roberts,
Gerald, Erw Wen (C'fon 3536)

CEUNANT: Gwenno Parri, Morwel
(Waunfawr 321)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (Llanberis 872275)

DEINIOLLEN: W O Williams, 6 Rhyd-
fadog, Deiniolen (Llanberis 871259)

DINORWIG: Mr D J Thomas, 8 Maes
Eilian (870773)

LLANBERIS: Iola Sellers, 13 Dôl
Elidir (871043)

LLANRUG: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn
Rhuddallt (Caernarfon 76733)

NANT PERIS: Mrs Ann Fleming,
Dolwen, 8 Nant Ffynnon (871457)

PENISARWAUN: Mrs Ann Evans,
Sycharth (Llanberis 872407)

TAN-Y-COED: Miss Bethan Parry, Ael
y Bryn. (872 276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts,
Pantafon, Waunfawr (Waunfawr 570).

Y RHIFYN NESAF

Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, MAWRTH 29

Deunydd i law'r
golygyddion perthnasol

NOS FAWRTH

MAWRTH 20

os gwelwch yn dda.

LLYTHYRAU

Y SAMARIAID ANGEN RHAGOR O FFRINDIAU

Annwyl Olygydd,
Fe dderbyniodd y Samariaid ym
Mangor bron i 12,000 o alwadau
llynedd. Mae'n siwr ei fod yn
hysbys i lawer o'ch darllenwyr mai
gwirfoddolwyr sydd yn cynnal y
gwasanaeth ar y ffôn. Tybed a yw
eich darllenwyr yn sylweddoli ei bod
yn bosib i ymuno â'r mudiad fel
aelod o Ffrindiau'r Samariaid. Y
Ffrindiau sy'n codi'r arian
angenrheidiol hyd at £8000 y
flwyddyn, sef y swm sydd ei angen
i gynnal y gangen, gan gynnwys
hyfforddi, cyhoeddusrwydd, prosiect
estyn allan i'r gymuned ac ati.
(Telir y rhan fwyaf o gostau ffôn
a'r adeilad gan Awdurdod Iechyd
Gwynedd a'r Gwasanaethau
Cymdeithasol).

Cynhaliwyd cyfarfod ddiwedd
Ionawr i ail-sefydlu'r Ffrindiau'r
Samariaid. Gan gofio fod y
Samariaid yn gwasanaethu
Gwynedd drwyddi draw fe
bwysleisiwyd yr angen am
gynrhychiolaeth o bob rhan o'r sir.

Mae hyn yn bwysig, nid yn unig
i rannu'r baich o godi arian ond i
ledaenu'r gair fel bod pawb yng
Ngwynedd yn gwybod am ein
bodolaeth a'n gwasanaeth. Tybed
a yw yn bosibl felly, drwy gyfrwng
eich colofnau, i wahodd unrhyw un
o'ch darllenwyr sydd â diddordeb i
gysylltu â Mrs Ann Morgan,
Cadeirydd, Borth 712740 neu Mrs
Elisabeth Roberts, Ysgrifennydd,
Bangor 3549915.

Bydd casgliadau stryd ym
Mangor ar Fawrth 17, ym
Mhorthaethwy ar Ebrill 28, yn
Llangefni ar Fai 24 ac yng
Nghaernarfon ar Fai 19. Buaswn
yn ddiolchgar iawn petai unrhyw
un yn medru rhoi atwr o amser i
helpu yn unrhyw un o'r casgliadau
hyn.

Gyda diolch i bawb fu'n cefnogi
yn y gorffennol,

Yr eiddoch yn gywir,
VERONICA HANSON,
Swyddog Cyhoeddusrwydd.

GALW ADRODDWYR I GWM RHYMNI

Annwyl olygydd,
Ysgrifennaf atoch ar ran
Pwyllgor Adrodd Eisteddfod
Genedlaethol Cwm Rhymni i
apelio at eich darllenwyr i
gystadlu'n frwd ar
gystadlaethau'r adran hon eleni.
Ceisiom gynnig arlwy amrywiol
- yn gyfuniad o'r hen a'r newydd,
y traddodiadol a'r modern, yn
ddarnau o ryddiaith ac o
farddoniaeth, a'r pwyslais ar
ddewis darnau y gallai
cynulleidfa fwynhau gwrando
arnynt. Gobeithio ein bod wedi
rhoi digon o ryddid i'r
cystadleuwyr arbroti rywfaent os
hoffent wneud hynny.

Efallai y gallaf dynnu'ch sylw
at rai cystadlaethau'n arbennig:
Adrodd Unigol 12-15 oed -
darn allan o'r nofel JABAS. Ar ôl
poblogrwydd y cyfresi teledu,
gobeithio y bydd hon yn apelio.
Adrodd Unigol 15-19 oed -
dwy fonolog gyfoes. Gwaith a
gomisiynwyd yn arbennig gan y
Pwyllgor Adrodd gan Gareth F.
Williams, awdur cerdd-ddrama
hynod o lwyddiannus Eisteddfod
Casnewydd, HEN WLAD FY
NHADAU. Mae'n hen law ar
ysgrifennu ar gyfer yr oedran
hwn, ac o'r herwydd yn gwybod
sut i apelio at yr ifanc.

Deialog rhwng dau yn
nhafodiaith unrhyw ardal.
Teimlwn ei bod yn hynod bwysig
i gadw'n tafodieithoedd yn fyw,
ac felly apelwn at yr aelwydydd,
yr ysgolion, a'r adrannau pentref

i gystadlu'n frwd ar y
gystadleuaeth hon. Gellir
defnyddio gwaith cyhoeddedig
neu gyfansoddi o'r newydd yn
arbennig ar gyfer y gystadleuaeth
- digon o sialens!

Côr Adrodd heb fod yn llai na
16 o leisiau. Dewisiwyd darn
hynod o ddramatig o'r nofel Y
STAFELL DDIRGEL - dyma
gyfle i lenwi'r pafiliwn â chyfoeth
lleisiau'n llefaru.

Parti Adrodd i Gyfeiliant.
Sylwer y gellir defnyddio mwy
nag un offeryn cerdd i geisio
creu awyrgylch a naws addas ar
gyfer darn hyfryd Rhydwen
Williams, CAPELAU.

**Cyflwyniad digri gan
unigolion** - digon o ryddid yma
i gael y gynulleidfa'n 'corco'
chwerthin.

Yn olaf, ond yn sicr nid leiaf,
sylwer ar **Wobr Richard
Burton** - cystadleuaeth newydd,
gyffrous, â gwobr sylweddol iddi
- £250. Mae hon wedi ei hanelu
at dalent ifanc Cymru. Apeliwn
at y mudiadau ieuenctid i gyd i'n
cefnogi.

Wrth gwrs, teimlwn yn
hyderus y bydd cystadlu fel arfer
ar yr hen ffefrynau.

Mae gwledd o eisteddfod yn
eich aros. Gobeithiwn eich gweld
yno yn y rhagbrofion adrodd
wrth eich cannoedd.

Yn gywir iawn,
GWAWR DAVIES,
Cadeirydd y Pwyllgor Adrodd.

BYCLINGS!

Annwyl gyfeillion,
Dim ond gair byr i hysbysu plant
Ysgolion Sul, a'i ffrindiau bod yna
ddiwrnodau arbennig ar eu cyfer
eleni eto ym MYD GWYLIAU
BUTLINS PWLLHELI, dydd
Sadwrn, Mehefin 30 a Gorffennaf
7.

Bu yna 6,000 yno llynedd, ond
fodd bynnag y mae'r rhif wedi ei
gyfyngu i 3,000 eleni, a hynny dros
2 ddiwrnod.

Y mae yna 'fyd dŵr' newydd
yno, sy'n dal dros fil o bobl yn y
dŵr. Bydd yna wasanaeth croeso,
a sioe arbennig.

Pris y tocynnau fydd £3.00, sy'n
75c yn rhatach na'r pris arferol i
grŵp.

**BETH AM DREFNU TRIP
YNO!**

I archebu tocynnau, neu am fwy
o fanylion, cysyllter â:

Y Parch D. Aled Davies, Swyddog
Datblygu, Cyngor Ysgolion Sul,
Ysgol Addysg, C.P.G.C., Ffordd
Deiniol, Bangor, Gwynedd, LL57
2UW.

Tel: (0248) 351151, est 2947.

GALW TREFNWYR 'DIGWYDDIADAU'

Annwyl Olygydd,

Yr ydwyf ar y foment yn dechrau
gweithio ar gyfres newydd o
raglenni cwis a fyddant yn cael eu
dangos ar S4C yn ystod yr haf
eleni.

Yr wyf newydd ddechrau ar y
paratoi ar gyfer ffilmio yn ystod y
Gwanwyn a'r Haf, ac ar y foment
yn edrych am leoliadau i ffilmio.
Nid cwis cyffredin yw'r cwis
newydd yma, gan na fyddwn yn
ffilmio mewn stiwdio gyda set fel
mae'r rhan fwyaf yn gwneud, ond
yn hytrach fe fyddwn yn teithio hyd
a lled Cymru yn cynnal y
gystadleuaeth allan yn yr awyr
agored.

Rwy'n ysgrifennu atoch felly i
ofyn a fyddai trefnwyr mor garedig
â gadael imi wybod am unrhyw
ddigwyddiadau mawr neu fach, o
ffair grefftau'r ysgol feithrin leol i
ddigwyddiad hanesyddol mawr a
fydd yn diwydd yn eich ardal yn
ystod Gwanwyn a Haf 1990.

Os ydych yn adnabod unrhyw
un neu yn gwybod am unrhyw
fudiad sy'n trefnu rhywbeth yn
ystod y cyfnod uwchod yna
cysylltwch â ni, mae'n bosib y
gallen ni drefnu rhywbeth i gyd-
fynd â'r digwyddiad. Os hoffech chi
neu un o'ch cyfeillion gystadlu yn
ein cwis, cysylltwch â ni yn y
cyfeiriad isod.

Gan edrych ymlaen at glywed
gennych.

Gyda Llawer o ddiolch

Yn gywir,
HUW PENNALLT.
(Rheolwr Cynhyrchu)
Ffilmiau Ehdid,
Curran Road, Caerdydd.

Llafar

DYLAD YDI DEBT YNTE!


Dylai'r newyddion diweddaraf ynglŷn â thrafferthion ariannol Leading Leisure fod yn rhybudd amserol, nid yn unig i Gyngor Arfon, ond hefyd i holl gefnogwyr y datblygiad arfaethedig yng Nglyn Rhonwy.

Daeth yr wybodaeth i'r amlwg yr wythnos diwethaf oherwydd i un cwmni lleol benderfynu hawlio'u dyledion - a hynny'n llwyddiannus - oddi ar Leading Leisure Hotels, is-gwmni Leading Leisure, drwy'r Llys (Small Claims Court). Y mae'n wybyddus hefyd fod nifer o fusnesau bychain eraill o'r fro yn honni iddynt gael trafferthion gyda thaliadau oedd yn ddyledus iddynt ynglŷn â Gwesty Seiont Manor, Llanrug.

Mae Is-Gadeirydd Leading Leisure eisoes wedi cydnabod nad yw'r helyntion diweddaraf hyn wedi bod o unrhyw gymorth i ddelwedd y cwmni yn Arfon. Yn wir, yr hyn a wnaiff y datguddiadau diweddaraf hyn yw cadarnhau ofnau gwrthwynebwyr cynllun Glyn Rhonwy ynglŷn â'r modd y bwriedid ariannu datblygiad sy'n debygol o gostio rhai degau o filiynau o bunnoedd.

Mae'n amlwg bellach fod angen dwys ystyried dyfodol y berthynas rhwng Cyngor Arfon a chwmni Leading Leisure. A dylai gwŷr busnes a thrigolion lleol ddwyn pwysau ar eu cynghorwyr i gael Cyngor Arfon i ohirio cyflwyno cais cynllunio Glyn Rhonwy i'r Swyddfa Gymreig nes bydd holl oblygiadau ariannol cwmni Leading Leisure wedi eu hasesu'n drwyadl gan gwmni annibynnol.

SIOP DACLUSAF Y FRO?



Annwyl Olygydd,

Ym mha le yr oedd y siop daclusaf yma?

Mae'r gweithwyr i gyd mewn cotiau gwynion a ffedogau llaes, yn ôl dull siopwyr y cyfnod.

Yn wir i chi, yn Neiniolen yr oedd tua'r flwyddyn 1929.

Siop dda fyddai hi hefyd, gwerthid pob mathau o fwydydd am bris rhesymol. Mae'r adeilad 'fel ac y mae' mewn lle hwylus iawn ar 'ben lon' y pentref.

Gwelir yn y llun mai hysbysebu nwyddau o Seland Newydd y maent ac wedi mynd i gryn drafferth i ddenu'r cwsmeriaid.

Bee-hive oedd hen enw'r siop. Enw addas iawn ar adeilad oedd yn siop groser, yn gwerthu bwydydd anifeiliaid, siop crydd brysur iawn a hefyd gellid cael amserlen a thocynnau trên mewn ystafell fach yng nghefn y tŷ.

Wel dyma ryw fraslun o hanes siop E. B. Jones i chwi. Yn y llun mae Penri, yn y rhes flaen a Lewis Morris o'r tu ôl iddo.

Roedd Penri yn lletya gyda fy nain yn Rhif 4, Porth-y-Gogledd, Catrin Jones oedd ei henw hi. Un o Goed Poeth, Wrecsam, oedd Penri.

Roedd Lewis Morris yn lletya yno hefyd, roedd ei gartref ef ym Mhen-y-Groes a byddai ef yn myned gartref ar y penwythnos.

Oes rhywun a fedr enwi'r lleill sydd yn y llun?

Beth yw hanes yr adeilad heddiw? Mae yn ddolur i lygaid y rhai hynny sydd yn byw yn Neiniolen ac i'r rhai ymwelwyr. Mae'r perchennog neu'r perchnogion wedi rhoi tamaid bler o ddur wedi rhydu ar y ffenestri. Mae'r adeilad ei hun mewn cyflwr difrifol iawn. Mae yn edrych yn

debyg nad yw'r perchenog yma yn byw yn Neiniolen neu mi fuasai wedi clywed yr holl gwynion sydd wedi bod yn ei chylch.

Oes hawl ganddynt i gadw tŷ gwag am yr holl flynyddoedd yn arbennig felly yn y cyflwr yma ynghanol pentref?

Mae y flwyddyn hon yn 'Flwyddyn yr Amgylchfyd'. Wel beth am ddechrau tacluso Deiniolen?

J. Eirlys Williams,
3 Pentre Helen,
Deiniolen.

LLANBERIS A'R RHYFEL MAWR

'Madryn'

25 Stryd Newton

Llanberis

Annwyl Olygydd, Ffôn: 871231
Buaswn yn ddiolchgar iawn o gael cysylltu a rhywun ym mhentref Llanberis (neu Nant Peris) sydd yn berchen llythyrau, lluniau neu unrhyw wybodaeth am eu teulu (brawd, tad, taid, ewythr, a.y.b.) sydd yn ymwneud â'r Rhyfel Mawr (1914-18).

'Rwy'n gweithio ar brosiect yn y maes yma a byddai unrhyw gymorth yn dderbyniol dros ben.

Gyda diolch,

Yn gywir,

SELWYN PRITCHARD

CYMDEITHAS

ADDYSG

YR AMGYLCHFYD: GWYNEDD



Ym Mhlas Tanybwlich, Nos Fawrth, Mawrth 13 am 7.00 cynhelir darlith ar y testun 'Cynefin yr Oes a fu' gan Dr Richard Kelly o Ymddiriedolaeth Archaeolegol Gwynedd. Mynediad - £1, ac am ddim i aelodau'r Gymdeithas.

DYFODOL

YR IAITH

Annwyl Syr,

Roedd yn ddiddorol darllen yr erthygl am 'ddyfodol yr iaith' yn yr Eco ar gyfer mis Chwefror.

Datganwyd pryder gan yr awdur am ddefnydd yr iaith yn ein cymunedau. Beth am greu a dosbarthu holiadur er mwyn asesu sefyllfa'r iaith ym mro Eco'r Wyddfa? Gellir defnyddio plant yr ysgolion uwchradd neu'r gohebwyr ardal er mwyn gasglu'r wybodaeth mewn ffurf safonol er mwyn eu cymharu cyn gwneud argymhellion ar gyfer gweithredu yn y dyfodol. Yr eiddoch yn gywir,
CLIVE JAMES,
Hafan, Caeathro.

AR WERTH

Gwely uchel mewn pîn, yn gorffwys ar wardrob a silffoedd. Addas ar gyfer plentyn. Dim matres. Cyflwr da iawn. £100. Ffôn: Waunfawr 626.

AM EICH HOLL ANGHENION YSWIRIANT - Y TY A'I GYNNWYS CAR - BUSNES - SIOP - CYFRIFOLDEBAU CYHOEDDUS A.Y.Y.B.

Cysylltwch â Robin Jones, F.Inst.I.C. Ymgynghorwr Yswiriant Annibynnol

ROBIN JONES A'I GWMNI

Llys Alaw, 18 Stâd Eryri, Bethel. Ffôn: 93 670140

Hefyd yn Stryd y Bont, Llanrwst, Gwynedd LL24 OET. (0492) 641154 (0492) 641840

★ Brocer Credyd Trwyddedig.

★ Cymrawd o'r Institiwt Ymgynghorwyr Yswiriant.

★ Gwasanaeth yn eich cartref drwy drefniant.

Telerau arbennig am yswiriant cynnwys eich ty, gyda gostyngiad ychwanegol yn y pris, o hyn tan ddiwedd mis Mawrth 1990.

DEINIOLEN

GOHEBYDD: W. O. Williams, 6 Rhydfadog (Llanberis 871259)

MERCHED Y WAWR: Daeth criw da ynghyd i gyfarfod Chwefror ar noson wyllt iawn. Wedi trafod busnes croesawodd Mrs Buddug Jones, y llywydd, Mr Gwyn Parri, Cynefin.

Soniodd Gwyn am y newidiadau ym myd addysg ac am ei waith yn Ysgol David Hughes, Porthaethwy. Yna aeth o'r difrifol i'r ysgafn a chafwyd detholiad o ganeuon oddi ar gasetiau a rhoddodd Gwyn rhyw bwt o stori ynglyn â phob cân.

Diolchwyd i Gwyn gan Iona Richards. Rhoddwyd y te gan Mair G. Jones a Margaret Roberts. Enillwyd y raffl gan Iona Richards.

Bydd cinio Gŵyl Dewi ar Fawrth 15 yng Ngwesty'r Victoria, Llanberis.

CLWB ELIDIR: Cafwyd cyfarfod o'r Clwb ar Ionawr 30 pryd y treuliwyd y prynhawn gyda chwist dan ofal Miss Eileen Williams. Diolchwyd iddi gan Mrs Jane Jones. Gwesteion y te oedd Mrs Jennie E. Williams, Mrs Jennie Williams a Mrs Jennie Cashman. Rhoddwyd y raffl gan Mrs J. Eirlys Williams ac fe'i hennillwyd gan Mrs Annie M. Morris.

Cafwyd cyfarfod arall o'r clwb ar Chwefror 13. Y wraig wadd oedd Mrs Alice Griffith, Dinorwig a chawsom brynhawn difyr iawn yn ei chwmni. Diolchwyd iddi gan Mrs Eirlys Ll. Jones. Gwesteion y te oedd Mrs Megan P. Morris, Mrs Alwen Jones a Mrs Eirlys Ll. Jones.

Rhoddwyd y raffl gan Mrs Megan P. Morris ac fe'i hennillwyd gan Mrs Annie M. Morris. Llongyfarchwyd dwy aelod ffyddlon o'r clwb ar eu penblwydd, sef Mrs Mary Hughes a Mrs Mary Thomas, y naill yn 89 oed a'r llall yn 86.

Cydymdeimlwyd â Mrs Jennie Williams ar golli brawd yng nghyfraith ym Mangor, ac hefyd ag Alan Wyn yn ei brofedigaeth sydyn o golli mam sef Mrs Irene Davies a fu ar un amser yn aelod o'r clwb. Cydymdeimlwyd hefyd â theulu y ddiweddar chwaer Mrs Sarah M. Hudson. Yr oedd Mrs Hudson yn un o'r aelodau cyntaf a sefydlodd y Clwb.

EBENEZER: Fel y mae'n wybyddus bellach mae'r apêl ail-doi wedi parhau ers deunaw mis a llwyddwyd i gasglu tros £6,000.

Hoffai'r Swyddogion ddiolch yn gynnes iawn i unrhyw un a gyfrannodd mewn unrhyw fodd i wneud yr apêl yn gymaint llwyddiant.

Tra'n sôn am weithgareddau'r capel, pery'r Astudiaeth Feiblaidd Undebol i gyfarfod bob nos Fercher a'r Cyfarfod Plant undebol i gyfarfod bob prynhawn lau yn rheolaidd.

Yn wir, yn ddiweddar trafodwyd dyfodol yr organ harmonica dderw sy'n perthyn i'r eglwys yn ogystal â'r harmoniwym fechan. Mae un o'r meginau ar yr organ wedi torri ond mae'r ail yn canu'n swynol. Os oes gan unrhyw un sy'n darllen hyn o eiriau ddiddordeb mewn prynu'r organ i bwrpas ei hail-wneud i'w defnyddio fel offeryn cerdd, cysyllter â'r ysgrifennydd (870068) yn fuan i drafod y mater. MARWOLAETH: Drwg gennym glywed am farwolaeth Emrys Pritchard o Fynydd Llandygai yn 81 mlwydd oed. Bu Emrys yn aelod ffyddlon iawn o'r Seindorf am flynyddoedd lawer. Yr oedd yn chwaraewr Cornet penigamp.

Ar un adeg yr oedd yn cerdded tros y mynydd dair gwaith yr wythnos i'r practis ar ôl diwrnod o waith caled yn y chwarel.

Cydymdeimlwn yn fawr â'r teulu yn eu profedigaeth.

LLWYDDIANT: Llongyfarchiadau i Miss Helen Mair Jones, 14 Rhes Marian am lwyddo yn yr arholiad nyrso R.G.N. yn Ysbyty Gwynedd. Dymunwn y gorau iddi yn y dyfodol.

DIOLCH: gair o ddiolch i Dawn a Nigel, Y Wellington Inn am eu caredigrwydd yn rhoi bws mini ac arian i gludo menyng a thyniau cig i'r pentre. Hefyd i Mr Robin Evans a'r hogiau am eu dosbarthu i bensiynwyr yr ardal. Diolch yn fawr.

DIOLCH: Dymuna Elaine Mai Williams ddiolch i'w ffrindiau, cymdogion, a pherthnasau am y llu o gardiau, rhoddion, a'r gofal, tra y bu o dan lawdriniaeth yn Ysbyty Gwynedd, ddechrau'r flwyddyn. Diolch o galon i bawb.

YR YSGOL FEITHRIN: Yn dilyn adroddiadau camarweiniol a ymddangosodd yn y wasg leol ynglŷn â'r atgyweirio fu ar yr adeilad yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, hoffem fanteisio ar

BRENNHINES Y CARNIFAL



Llun Brenhines Lyndsey a'i llys (1989) gyda'r ddarpar-frenhines Lisa (1990) a'i gosgordd, sef — gweinyddes Debbie; tywysoges Kelly a gwas Christopher.

golofnau'r Eco i gywiro rhai ffeithiau. Ar yr un pryd, carem ddiolch i'r llu pobl a wnaeth y cyfan yn bosibl.

Diolch yn gyntaf i Bwyllgor Tywysog Cymru am eu cefnogaeth ariannol hael, ac i'w swyddog, Miss Rhiannon Bentall, am ei brwdfrydedd a'i hanogaeth. Heb ei chynghor hi, prin y byddai'r pwyllgor wedi mentro ymgymeryd â'r prosiect yn y lle cyntaf.

Mae ein dyled yn fawr hefyd i drigolion Deiniolen a'r cylch a fu mor frwd eu cefnogaeth i'r gweithgareddau codi arian niferus, ac i'r cymdeithasau a mudiadau lleol am bob cyfraniad ariannol. Diolch i'r holl weithwyr, yn lleol a chymunedol a fu ynglŷn â'r gwaith, a diolch arbennig iawn i'r criw ffyddlon o wirfoddolwyr a fu wrthi'n ddygn yn paentio er mwyn cwblhau'r gwaith. Diolch o galon i bawb.

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y ganolfan ar Chwefror 5 o dan arweiniad Mrs J. Eirlys Williams, y llywydd. darllenodd Mrs Williams y llythyr misol a chroesawodd y wraig wadd sef Miss Jean Moeller. Dangosodd Miss Moeller sleidiau o Ddinas y Fatican a lluniau Michaelangelo yng Nghapel y Sistine.

Diolchwyd i Miss Moeller gan Mrs Eirlys Lloyd Jones. Rhoddyd y te gan Mrs J. Eirlys Williams a Mrs Beti Wyn Davies. Enillwyd y raffl gan Mrs H. J. Thomas.

Bydd y cyfarfod nesaf ar Fawrth 8 gyda swper Gŵyl Dewi a noson Moes a Phryn (Bring and Buy).

PLAID CYMRU - CLWB CANT MIS RHAGFYR: £10 -

Mrs Rona Jones, 14 Pentre Helen; £8.50 - Mr Wyn Hughes, Tyn y Weirglodd. MIS IONAWR: £10 - Mrs L. M. Lewis, Llys Anedd; £8.50 - Mrs Myfi Jones, 11 Hafod Olau.

CRONFA YMDDIRIEDOLAETH DEINIOLEN: Gwahoddir ceisiadau oddi wrth sefydliadau a mudiadau yn Neiniolen am gyfraniad o'r Gronfa uchod. Bydd y pentrefwyr yn cofio i'r Gronfa gael ei sefydlu gan y Comisiwn Elusen at ddibenion elusennol, ac er budd cyffredinol trigolion Deiniolen.

Dylid anfon y ceisiadau, ynghyd â chopi o'r Fantolen ddiweddaraf, mewn amlen wedi'i marcio 'Cronfa Ymddiriedolaeth Deiniolen', i Ysgrifennydd y Gronfa, 4 Tai Caradog, Deiniolen, erbyn dim hwyrach na 31 Mawr, 1990.

PRYD AR GLUD: S.O.S.! Mae'r gwasanaeth Pryd ar Glud i bensiynwyr Deiniolen yn gwegian o fod eisiau gwirfoddolwyr i helpu rhannu'r bwyd ar ddydd Llun a dydd Gwener. Os ydych yn berchen car, ac yn gallu sbario'r amser — llai nac awr ar y tro — byddai'n gymwynas pe byddech yn cysylltu gyda Robert Williams, 4 Tai Caradog am fanylion pellach. Gwerthfawrogi'r gwasanaeth gan y dwsin pensiynwyr sydd yn ei dderbyn yn rheolaidd, a byddai colli'r prydau bwyd poeth yn siomiant mawr iddynt. Byddai ymateb diymdroi yn dra derbyniol.

DIOLCH YN FAWR I CHI BOBL DEINIOLEN AM BLYGU Y RHIFYN HWN O'R ECO

CYFLENWYR PORTHIAN
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAD ANWES
GWERTHWYR NWY

Y Fachell
Llanddeiniolen

Ffôn:
Port Dinorwig 670439



Gwaith Adeiladu? Gwaith Grant ac Insiwrans?
Dewch at

R. A. OWEN

9 TAI GLANDWR, CLWT Y BONT

DEINIOLEN

Ffôn 870693 (dydd) 870069 (min nos)

Trwsio Toi, Teilsio Waliau a Lloriau, Concritio Llwybrau,
Plastro, Gosod Llechi, Paentio ac Addurno, Waliau,
Byrddau Plastar, Trwsio Simneiau, Gwaith Plymio.

STORI DRIST O DDEINIOLEN

Dros beint neu ddau yn ddiweddar yn 'Y Tarw', Deiniolen, ddaeth y stori i fy nghlustiau, a wna i ddim enwi o geg pwy ddaeth y geiriau ychwaith. 'Top Secret' yne!

Mae'r stori yn dechrau - Amser maith yn ôl (rhyw bythefnos cyn Dolig '89) digwyddodd rhywbeth mawr ym mhentref bach Deiniolen.

Roedd Alwyn sy'n blastrwr o Glwt y Bont (Beverley Hills go iawn) wedi sylweddoli fod llygoden wedi symud i fewn i'r tŷ. Yn amlwg, wedi gweld ôl traed yn y menyn yn y rhewgell, a'r hen dda-da cachu llygod licrish ym mhobman. Ac roedd Jerry, dyna yn amlwg oedd ei enw, oherwydd roedd yn bombio pethau du o gwmpas y tŷ 'cw cyn gymaint â'r Almaenwyr adeg y rhyfel.

Felly ddaru Alwyn roi trap i lawr i ddal yr hen hogyn. Ar ôl deg diwrnod doedd Jerry byth wedi cael ei ddal, a roedd y Red Leicester yn dal i eistedd yn ddel yn y trap, ac wedi llwydo rhywfaint. Un noson yn Y Wedars (Wellington) roedd Alwyn yn siarad am Jerry gyda Bill Sparks, Clwt y Bont. Gwaith cyntaf Bill oedd prif ddaliwr llygod yn fynwent Bethesda. Roedd wedi dilyn prentisiaeth 'Rat Catching as a Profession' - cwrs o dair mlynedd yng Ngholeg Pencraig, Llangefni.

Roedd Bill wedi torri ei galon, yn gorfod troi ei law i fod yn Sparky. Roedd yn sylweddoli fod y bygars bach yn gallu rhedeg yn gyflymach na fo. Henaint wedi dal i fyni y llygod yn amlwg yn cymeryd steroids.

Sorri, dwi wedi dianc oddi wrth y stori yn y Wedars. Ddaru Bill sylweddoli beth oedd allan o'i le pan ddywedodd Alwyn y gair 'Red Leicester'.

Dyma Bill yn gofyn i Alwyn: 'Fuasa chdi yn cynnig peint o Yorkshire Best Bitter i Brymer?'

'Mam bach, na, mae'r boi yn byw ar beintiau o Bedigree. Mae run fath a trio gwneud i gi fwyta afal'.

'Yn union', meddai Bill.

'Mae'n rhaid i lygoden fach Gymraeg fwyta caws da Cymreig - mae yn gwneud synnwyr - ydi bobol?'

Felly y noson yna cyn mynd i'w wely gyda boc o Anadin yn ei law ddaru Alwyn roi tamaid o gaws Caerffili blasus yum! yum! yn y trap, a'i roi tu allan i dwll Jerry.

Y bore wedyn roedd Wayne, mab Alwyn, yn chwarae i lawr y grisau pan glywodd GLEC. Roedd Jerry bach druan wedi cael ei ddal yn y trap. Y caws Caerffili yn ormod o demtasiwn. Roedd Jerry wedi cael ei ddal gerfydd ei ben ôl ac roedd y gweddill o'i gorff yn rhydd ac yn fyw.

Gyda'r trap yn ei law rheddod Wayne i fyny'r grisau i ddangos y llygoden i'w dad. Roedd Alwyn yn hanner cysgu, lwmp o gur yn ei ben, pan yn sydyn allan o nunlle roedd gwyneb Jerry wrth ymyl ei drwyn. Wayne oedd yn awyddus i'w ddangos i'w dad.

Dyma Jerry wedi cael llond bol yn gafael yn nhrwyn Alwyn gyda'i ddannedd bach main - yn sydyn cododd Alwyn o'i gwsg gan weld a theimlo llygoden yn sownd yn ei wyneb. Rydych chi wedi gweld y ffilm 'Rats' achafi yna - roedd Alwyn yn meddwl mai 'repeat' ar BBC1 oedd yn digwydd.

Roedd Jerry yn benderfynol o beidio gollwng - ac Alwyn wedi bod yn tynnu fel dyn allan o'i go ers oes. Yr unig ateb oedd gwasgu pen Jerry bach a'i ladd. Peidiwch â chrio, mae wedi mynd i le gwell - nefoedd y llygod Caws Caerffili.

Gyda dau farc coch ar ei drwyn fel tasa Dracula wedi cael ei frecwast, ac wedi cael braw bythgofiadwy, roedd Alwyn mewn ofn o fod wedi cael ei wenwyno. Aeth yn syth i lawr i ysbyty Gwynedd i gael 'Tetanus' gyda twal rownd ei ben rhag i neb ei adnabod.

Dywedodd y stori wrth y nyrs, ac roedd hi'n marw eisiau chwerthin. Roedd rhaid iddo ddisgwyl i gael gweld y doctor, a'r cleifion eraill yn meddwl fod

y 'Mummy' o arch Tutakamwn wedi dengid. Uffern o twal crand mae'n rhaid.

Rhyw hanner awr wedyn daeth y nyrs allan a gweiddi ar ben ei llais: 'Mr Mickey Mouse, y chi sydd nesaf' - a beth wnaeth Alwyn ond chwilio am y twll yn y wal agosaf. - Y DIWEDD.

Alwyn, mae pawb yn Neiniolen yn gobeithio dy fod wedi gwella, ac yn dymuno blwyddyn newydd dda i chdi.

Cofiwch, bawb, bydd yna

wasanaeth yng Nghapel Ebenezer, Deiniolen, am 7.30 pm ar Chwefror 30, 1990, i gofio am ein ffrind Jerry bach, sydd wedi cael ei gladdu mewn boc o 'Swan' ar ben Bigil.

R.I.P.

Jerry Bach Carwr Caws Caerffili 1987-1989

Ysgrifennwyd y stori yma gan: **Lord Lucan, Glyn Ffidich, Deiniolen.**

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Daeth cynulleidfa fwyaf y Gymdeithas ers rhai misoedd i festri Capel Coch, Llanberis, i gyfarfod mis Chwefror. Cafwyd gwledd o noson (a phaned a bisged i ddiweddu hefyd!) wrth i Gwynfor Roberts dywys y gynulleidfa ar daith drwy bentref Llanberis gyda chymorth lluniau. Roedd aelodau o'r gynulleidfa yn fwy na pharod i gymryd rhan, a chafwyd atgofion, staeon a ffeithiau diddorol am yr hen Concert Hall, y capeli, cymeriadau, ffordd Tŷ Du, hen fythynnod ac ardal Cwm Brwynog. Cafwyd egwyl er mwyn i bawb fedru archwilio hen ddogfennau, hen

bosteri a hen lyfrau yn ymwneud a hanes y pentref. Yn wir, gallai'r noson fod wedi parhau am oriau rhagor ond for amser yn drech na brwdfrydd y gynulleidfa.

Trueni na fyddai cymaint o bobl yn ymaelodi yn y Gymdeithas ac yn mynychu pob cyfarfod. Beth amdani drigolion bro'r Eco? Bydd cyfarfod mis Mawrth yng Nghanolfan Cwm y Glo. Thema'r noson fydd 'Mae hanes i hwn...' Gwahoddir chwi i ddod ag unrhyw beth o ddiddordeb hanesyddol (boed lyfr, llun, dogfen, teclyn, crair, ac yn y blaen) gyda chwi ac i adrodd rhywfaint o'i hanes.

TAN-Y-COED

Gohebydd: Bethan Parry. Ael y Bryn. Ffôn 872 276.

LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Gary Jones, 9 Bro Rhythallt ar enedigaeth eu merch, Emma Wyn, ar Chwefror 5, wyres gyntaf i Mr a Mrs Cyril Roberts, 1 Tai Minffordd.

Llongyfarchiadau hefyd i Mr a Mrs Gary Wynne ar enedigaeth eu merch ar Chwefror 14, wyres gyntaf i Mr a Mrs O. Edwin Wynne, Llety Llwyd, ac i Mr a Mrs R. Wynne, Gelliod, ar fod yn hen daid a nain am y tro cyntaf.

YN YR YSBYTY: Drwg gennym glywed fod Mrs Jeannie Hughes, Oerddwr, yn ôl yn yr ysbyty. Gobeithio y caiff wellhad buan.

DAMWAIN: Da gennym glywed fod Mr Keith Roberts, Awelfryn, yn gwella ar ôl ei ddamwain yn ddiweddar.

CAPEL CEUNANT: Brynhawn Sul, Chwefror 4ydd, bedyddiwyd Christopher David, mab Glyn a Sandra Jones, Penhafodlas, gan y gweinidog y Parch John Morris. CYDYMDEIMLAD: Cydymeimlwn â theulu Mrs Louie Jones a'r teulu, Tŷ Capel, ar golli ei mam yn ddiweddar.

MAE'R
SAMARIAID
YN GWRANDO,
YN ABBEY ROAD



BANGOR
354646

GERAINT OWEN

Gosodwr
carpedi a phob
math o lorïau

Cil-y-Mynydd
WAUNFAWR

Ffôn:
Waunfawr 552

GWASANAETHAU ARIANNOL

ERYRI

FINANCIAL SERVICES



41B STRYD FAWR
LLANBERIS

Ffôn: 872003



Guardian
Royal
Exchange

trading

Beth am ddysgu
dreifio gydag

YSGOL YRRU

BETHEL

Cysylltwch â

Richard M. Hughes
42 Bro Rhos, Bethel
Portdinorwig
671009

Agor Ffiniau'r Gorffennol

'AM ANNWYL FU-CU Y COF'

Gan Mary Lloyd Williams, B.E.M.

Ganwyd y diweddar Barchedig Owen Morgan Lloyd ddiwrnodu Valentine, Chwefror 14, 1910. Pe cawsai fyw bythefnos arall buasai wedi cyrraedd oed Yr Addewid. Bu farw ar Chwefror 1 1980 a bu'r angladd yng Nghapel Salem Annibynwyr Caernarfon ar Chwefror 6.

Gadawodd weddw, sef Mrs Gwyneth Lloyd, merch o Lanrug gynt (merch y diweddar Mr a Mrs William Jones, Tegfryn), hefyd tri o blant, Gwyn, Rhys, a Nest, hefyd wyrion a dwy chwaer. Wedi ymddeol o'i ofalaeth yn Nolgellau daeth y teulu i fyw i Gaernarfon. Colled fawr i ddarllenwyr yr Herald oedd colli ei ysgrifau wythnosol yn yr Herald Cymraeg, a cholled i Gymru gyfan oedd colli O. M. Lloyd ym mhob cylch mewn cymdeithas.

Fel Gweinidog yr Efengyl y cofir O. M. Lloyd yn bennaf, ac fel llenor a bardd a Chymro pur. Fel gweinidog a bugail bu'n ofalus o'i braidd ac yn fawr ei barch. Fel bardd a llenor yr oedd yn tra rhagori yn enwedig fel athro'r Cynganeddion. Gallai gadw cynulleidfa yn ei law, bu'n annibynol yn ei farn, a llefarodd ei feddwl heb ofn. Uwchlaw pob peth yr oedd yn gyfaill pur, parod ei gymwynas i bawb.

Emyn Mab y Dyn

Cofiaf fy mod yn teithio adref o gapel Morfa Nefyn ar nos Sul, Medi 26, 1979, ym modur O. M. Lloyd. Seiat brofiad fu'r sgwrs ar hyd y daith. Diflannodd pum milltir ar hugain fel pum munud.

Gofynnodd Mr Lloyd i mi: 'Beth oedd eich testun heno?'

Atebais innau, 'Emyn Mab y Dyn gan George Rees.' Mi ddywedais mai dyma emyn mwyaf yr iaith Gymraeg yn fy marn i, a bod George Rees yn gyfaill cywir i fy nhad, Glan Rhyddallt. Ac mai tri anheggor emyn ydyw ei fod yn canu yn dda, yn darllen yn dda a bod eneiniaid ynddo.

Atebodd yntau: 'Da iawn ngenath i - ewch ymlaen.' Mentrais ddweud mai bardd wedi ei ail-eni ydyw emynydd, oherwydd rhaid cael rhywbeth mewn emyn heblaw mydr ac odl

- rhaid cael eneiniaid dwyfol ynddo.

Meddai Mr Lloyd wedyn: 'Yr yda chi yn hollol gywir. Glywsoch chi englyn Gwilym Deudraeth?'

Dyma fo:
Mi wnaif englyn o'r gwynna - yn y lleddf,

*Yn y llon, neu'r smala;
Gwn nad wyf yn ddigon da
I wneud emyn hyd yma.
Gwilym Deudraeth.*

Gofynais iddo yntau 'Glywsoch chi englyn fy nhad i Emyr?' Dyma fo:

Nid taer agwedd y weddi - na phregeth

*A ffrugwd a gweiddi,
Emyn dwys i'm henaidd i
A rydd hwyl i'r addoli.
Glan Rhyddallt.*

Trodd y sgwrs wedyn i sôn am nos Sul y Pasg 1925 sef y noson y cyfansoddodd George Rees ei emyn yn y trên o dan y ddaear ar ei ffordd adref o gapel Willesden Green, Llundain. Yr Athro David Williams oedd wedi pregethu'r noson honno.

Meddai Mr Lloyd: 'Yr ydw i ar hyd fy oes yn dueddol i weiddi wrth bregethu a rhoi straen arnaf fy hun. Pan ofynnais i'r meddyg a gawn i ganiatad i ail ddechrau pregethu, atebodd: 'ar un amod,' meddai Dr Griffith, 'Na wnewch chi ddim gweiddi ond pregethu

reit dawel'. Addewais yn bendant i'r meddyg y buaswn yn uffuddhau.'

'Wel, mi ddoth bore Sul a finna yn cael pregethu am y tro cyntaf ar ôl mendio - yn Salem, Caernarfon. Yr oedd y meddyg yn y capel yn y bore, - a mi bregethais yn hollol dawel a digyffro gan fod y meddyg yn fy ngwyllo. Beth bynnag i chi, mi ddoth oedfa'r nos. Toedd y meddyg ddim yno, ac wrth gwrs dyma finnau yn cael tragwyddol heol o ryddid i weiddi fel y mynnwn. A mi es yn ôl i fy hen lwybrau ac roeddwn wrth fy modd!'

'Bore dydd Mawrth es i weld y meddyg fel arfer. Wedi fy archwilio dyma fo'n gofyn i mi a oeddwn i wedi bod yn gweiddi yn ddiweddar. "Naddo wir, doctor bach, ond doeddach chi yn y capel yn gwrando arna'i bore Sul? Wnes i ddim gweiddi o gwbl." "Sut bu hi yn y nos," gofynnodd y meddyg. "Run fath", medda finnau.'

'Arhoswch am funud,' medda fo, "Mi ddois i'r capel yn y nos, ond gan fy mod yn hwyr mi eisteddais ar y grisiau yn y cyntedd i wrando arnoch yn gweiddi nerth esgryn eich pen a finnau wedi'ch

warnio". A dyma fi'n cael tafod. Ond wna i byth eto. O hyn ymlaen, mi uffuddhaf i'r meddyg. Ha - ha - ha!' hwyl wedyn. Cefais yr hanes o enau y meddyg hefyd wythnos wedyn ar y Maes yng Nghaernarfon.

1980

Yn ei sgwrs ar y radio Ddydd Calan 1980 adroddodd O. M. Lloyd yr englyn canlynol o'i waith. Yr oedd yn englyn wedi dwad yn syth o'r 'mint' fel petae gan mai'r bore hwnnw yr oedd O. M. wedi ei lunio. Gofynnodd llawer am gopi ohono. Dyma fo:

Mil naw wyth deg, ymlaen a'th daith, - yr ei

*A'r lôr yn gydymaith:
Lle'r arweinio bydd gobaith
Y daw llwydd ar dy holl waith.
O. M. Lloyd*

'Yn Dy law Di y mae f'amserau,' Salm 31, 15fed adnod.

Mesurwr fy holl amserau - yw Duw,

*Y diwedd o'r dechrau,
Rheola fel yr heuliau
Fy myd mraf, fy mywyd brau.
O. M. Lloyd*

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL CWM RHYMNI 1990 CORAU I GYSTADLU AM Y RHUBAN GLAS

Bydd cystadleuaeth Rhuban Glas i gorau yn Eisteddfod Genedlaethol Cwm Rhymni eleni.

Sefydlwyd y gystadleuaeth newydd, sy'n cynnig gwobrau arbennig o hael, mewn ymdrech i ddenu rhagor o gorau i gystadlu yn y Genedlaethol. Pedwar-ar-hugain o gorau fu'n cystadlu yn Eisteddfod Genedlaethol Casnewydd ym 1988.

Bydd y prif gorau yn cystadlu ar ddydd Sadwrn, Awst 4; dydd Mercher, Awst 8; a dydd Sadwrn, 11fed.

Ar ddiwedd bob un o'r dyddiau hyn bydd yr enillwyr yn y cystadlaethau i gorau cymysg, meibion a merched, yn cystadlu yn erbyn ei gilydd.

Ar ddydd Sadwrn, Awst 11, bydd y cor buddugol yn yr adrannau cymysg, meibion a merched - heb fod yn llai na 61 o leisiau, yn cystadlu am wobr arbennig o £500 yn ychwanegol i'r £500 yn y cystadleuaethau traddodiadol.

Bydd corau rhwng 41 a 60 o leisiau yn cystadlu am £800 ar ddydd Sadwrn, Awst 4.

Cyfrennir at gostau teithio'r corau, ac mewn rhai adrannau mae'r treuliau'n uwch nag o'r blaen.

Mae'r Eisteddfod yn edrych ymlaen i groesawu'r corau hynny sydd wedi bod yn ffyddlon i'r Wyl dros y blynyddoedd, yn ogystal a chorau na fu'n cystadlu erioed o'r blaen. Yn arbennig, gobeithir y bydd y cystadlaethau newydd yn fodd i elwa ar y traddodiad cyfoethog o ganu corawl yng

Nghwm Rhymni.

Nod yr Eisteddfod yw torri tir newydd a chynyddu diddordeb corau Cymru mewn cystadlu. Ond pwysleisia'r trefnwyr nad yw'n fwriad i'r cystadlaethau newydd ddisodli'r cystadlaethau corawl traddodiadol.

Am ragor o fanylion, cysylltwch â: Penri Roberts, Trefnydd, Swyddfa'r Eisteddfod, 41 Hanbury Road, Bargoed, Morgannwg Ganol. CF8 8SQ. Rhif ffôn: 0443 821677.

CAEATHRO

Gohebydd: Mrs Beryl Roberts, Gerallt, Erw Wen. Cfon 3536.

GWASANAETHAU'R CAPEL: Bydd y canlynol yn pregethu yng nghapel y pentref yn ystod mis Mawrth: 4ydd - William Jones; 11eg - Gareth Maelor; 18fed - H. P. Jones; 25ain - Gwenda Jones.

Cynhelir pob gwasanaeth am 2 y prynhawn a mae croeso i bawb.

GWILYM H. WILLIAMS BRYN DAIRY 2 BRYNHYFRYD BETHEL

Ffôn
Port Dinorwig 670786



Llefrith
Llaeth Porfa
Llaeth heb Hufen
Wyau, Tatws
Diodydd
Ffrwythau

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Am groeso cartrefol Cymreig bob amser
Aneuryn a Jeanette Jones a'r staff

DINORWIG

Gohebydd: Mr D. J. Thomas, 8 Maes Eilian

HUGH THOMAS (1915-1990)

Daeth tristwch mawr i ran pentref Dinorwig pan glywyd am farwolaeth tawel ond sydyn Mr Hugh Thomas yn ei gartref yn 1 Bro Elidir ar fore Sul, Ionawr 28. Roedd yn 74 oed. Heb os roedd yn berson hynod unigryw; un a roddodd oes o wasanaeth i'w fro gan gyfrannu mewn llawer dull a modd i fywyd cymdeithasol, diwylliannol, a chrefyddol ei bentref genedigol.

Cafodd ei eni yn Dinorwig Cottages gerllaw tomennydd y chwarel ym Mhen Draw, Dinorwig. Bryd hynny gyda'r chwarel yn ei hanterth roedd yno gymdeithas hynod o glos. Fel sawl un arall yn ei gyfnod gorfu iddo adael yr ysgol yn bedair ar ddeg oed a mynd i'r Chwarel i weithio. Heblaw cyfnod yr Ail Ryfel Byd treuliodd bron i bymtheng mlynedd ar hugain yn y chwarel hyd nes iddo orfod rhoi'r gorau i'w waith oherwydd salwch ac yntau ond yn hanner cant oed. Eto, cyn ac ar ôl iddo roi'r gorau i'w waith yn y chwarel, ac er na fu iddo fwynhau iechyd da am flynyddoedd maith wedyn, nid oedd ball ar ei ddycnwch a'i ddyfalbarhad i weithio dros y gwerthoedd hynny oedd mor bwysig iddo hyd ddiwedd ei oes.

Roedd ganddo feddwl y byd o'i fro ac fe dreuliodd ei oes yn gwarchod ei buddiannau. Gwasanaethodd fel Cyngorydd cydwrbodol ar y Cyngor Plwyf am flynyddoedd maith; Llywydd y Ganolfan a'r Gymdeithas Undebol leol. Pan oedd yr ysgol ar agor, gweithredodd fel un o'r Llywodraethwyr ac ef oedd Cadeirydd olaf Co-op Deiniolen. Ei gariad arall oedd mynychu Clwb Methedig Bethesda. Roedd yn aelod gwreiddiol o'r Clwb hwnnw ac edrychai ymlaen at y cyfle o fynd drosodd i Fethesda bob dydd Mawrth i fwynhau cwmni ei ffrindiau. Roedd yn ŵr hynod ddiwylliedig, yn ddarllenwr mawr ac yn gefnogwr brwd i waith Cymdeithas Addysg y gweithwyr. Roedd ei gyfraniad bob amser yn werthfawr ac yn ddiddorol yn y dosbarthiadau nos lleol. Fe wnaeth y cyfan o'r gwaith yma yn hollol ddistwr a chyda'r sylw lleiaf. Ni fynnai gam i neb; eisiau y gorau i bawb. Ni wnai dim byd llai y tro.

Wrth gwrs ei gariad pennaf oedd Eglwys St Mair. Ni fu aelod mor ffyddlon erioed. Gwasanaethodd ei Eglwys trwy gydol ei oes a hynny drwy esiampl. Dros y blynyddoedd ymgwyrodd â phob swydd oedd yn agored i leygwr o fewn ei Eglwys ac anrhydedd o'r mwyaf oedd iddo gael gwneud hynny. Nid oedd unrhyw dasg yn ormod iddo ac ni fynnai byth gwyno gan gymaint oedd ei gariad a'i frwdfrydedd tuag at waith yr Eglwys.

Yn naturiol er cymaint ein colled ni fel cymdeithas, y teulu fydd yn gweld ei golli fwyaf. Gyda'i briod annwyl Mrs Alice Thomas, magodd bump o blant a hyfrydwch o'r mwyaf iddo oedd eu gweld yn mabwysiadu ac yn gweithredu yr un gwerthoedd a fu mor bwysig

iddo ef yn ystod ei fywyd. Estynnwn ein cydymdeimlad llwyraf â'i briod annwyl, a'r plant; Y Parchedig Idris Thomas; Mri Glyn a Meirion; a'r ddwy ferch Margaret a Gwyneth a'r holl deulu yn eu profedigaeth a'u galar. Boed i nerth grasusol Duw eu cynnal a'u gwarchod yn y Ffydd a fu'n gymaint o ysbrydoliaeth i'r diweddar Mr Hugh Thomas.

Boed i'w enaid trwy drugaredd Duw orffwys mewn tangnefedd. CANOLFAN GYMDEITHASOL: Gwaetha'r modd ni ddaeth llawer ynghyd i'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd nos Fawrth, Chwefror 6. Roedd yr ymateb yn un hynod siomedig, yn arbennig pan gofir pa mor ganolog i fywyd y pentref yw'r Ganolfan. Ni ddylid rhoi y cyfrifoldeb o redeg y Ganolfan ar ychydig o bobl. Felly i wneud yn iawn am hyn, penderfynwyd ail gynnal y Cyfarfod Blynyddol a'r dyddiad newydd yw nos Fawrth, Mai 1 am 7.00. Felly digon o rybudd i bawb yn y gobaith y bydd mwy ohonoch yn troi i mewn tro nesaf.

EGLWYS ST. MAIR: A thymor y Garawys gyda ni unwaith yn rhagor, bydd gwasanaethau yn cael eu cynnal yn St. Mair bob bore lau am 10.00 gan ddechrau ar yr 8fed o Fawrth tan Sul y Blodau. Arweinir y gwasanaethau hyn gan y Parchedig Idris Thomas, Rheithor Clynog a Llanaelhaearn. Mae croeso i bawb o bob enwad ymuno yn y gwasanaethau hyn. SGETSUS: Mae tipyn o hwyl i'w gael yn ymarfer y sgetsus yn y Ganolfan bob nos Lun am 7.00. Y gobaith yn y pen draw yw llwyfannu y sgetsus trwy gynnal noson lawen diwedd mis Mawrth. Ceir mwy o fanylion yn ystod yr wythnosau nesaf. Cofiwch nid yw yn rhy hwyr i ymuno yn yr hwyl. Dim ond troi fyny ar nos Lun sydd angen ei wneud. Croeso cynnes i bawb.

DIOLCH: Dymuna Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, a'r plant ddiolch i bawb am y cydymdeimlad a'r caredigrwydd a dangoswyd iddynt yn eu profedigaeth o golli priod a thad annwyl sef Mr Hugh Thomas. Diolch i'r Offeiriaid wasanaethodd yn y gwasanaeth angladdol ac yn y gwasanaeth coffa a diolch i'r ymgwymerwyr, Mr M. Pritchard, Llanberis. Diolch am y rhoddion hael a dderbyniwyd at Eglwys St. Mair, Dinorwig.

COFIO MR I. L. JAMES: Hyfryd iawn oedd cael darllen yn 'Eco'r Wyddfa' mis Ionawr y deyrnged ardderchog i'r diweddar Mr Ieuan Lewis James, B.Sc. Roedd yr hyn a ysgrifennwyd yn gynnil a di-wastraff heb arlliw o gwbl o ormodiaeth. Roeddwn i'n perthyn i do o ddisgyblion yr Hen Ysgol Brynrefail, pan ddaeth Mr James yno gyntaf, ac fe deimlwn innau fy mod yn ael gwasanaeth boneddwr o athro ysgol. Trwy gymell y ceisiau ein harwain i ddirgelion gwyddor Phiseg a thrafod rheolau'r wyddor honno oed yn cyfuno anianeg a phroblemau mathemategol.

Flynyddoedd yn ddiweddarach

a'r ysgol wedi symud i adeilad newydd yn Llanrug, fe euthum i ymweld â'r Ysgol Newydd, ac fe ymhyfrydai Mr James o gael dangos i mi ragoriaethau'r Ysgol Newydd ar yr hen. Nid oedd dim yn ormod o drafferth ganddo. Roedd hi'n amlwg ei fod yn gwerthfawrogi'r cyfle a gai plant gwerinwyr i dderbyn yr addysg orau bosibl.

Ffaith drawiadol i mi oedd bod un o'n cyn-weinidogion ni, sef y Parchg. William Clifford Davies wedi dewis Gorseinon, - ardal enedigol Mr James, fel lle i dreulio ei flynyddoedd olaf, - yntau wedi gwneud ei gartref gyda'i ferch. Tybed a yw cyd-ddigwyddiadau fel hyn yn anorfod - ai yntau hap a digwydd yw'r cyfan? O leiaf mae'n faes i ni feddwl yn ddwys yn ei gylch.

COFIO MR HUGH THOMAS: Ymledodd cwmwl o dristwch dros ein hardal ar ddechrau blwyddyn pan fu farw Mr Hugh Thomas, 1 Bro Elidir. Sydynrwydd y brofedigaeth hon oedd yn peri braw i ni, ac ardal gyfan yn cydymdeimlo â'r garfan fechan sy'n cyd-addoli yn Eglwys St. Mair. Roedd y brawd yn aelod ffyddlon a defnyddiol yno tra hefyd yn gwasanaethu'r ardal mewn amrywiol ffyrdd yn ddistaw a diffwdan. Yn dilyn fe geir copi o deyrnged i'r diweddar frawd mewn pwyllgor y Ganolfan yn ddiweddar. Ein gobaith yw gweld eraill yn dod i lenwi'r bylchau.

"Gwych!" oedd hoff air Hugh Thomas, pan ddisgrifiai unrhyw beth a'i bodlonai'n fawr. "Noson wych heno", fyddai ei ddyfarniad ar ddiwedd Dosbarth W.E.A., neu wedi gwranddo sgwrs yn y Gymdeithas Lenyddol. "Gwych!" wrth ddod allan o Oedfa Plant y Gymdeithas Feiblau neu oedfa cyfarfod pregethu, a "Gwych" os digwyddai i Gymru ennill pencampwriaeth snwcer neu beldroed.

Pan fu farw'n sydyn fore Sul, Ionawr 28 eleni, daeth cwmwl o dristwch dros ardal Dinorwig. Cafodd Hugh Thomas ei eni a'i fagu yn yr ardal, ac yma y treuliodd ei oes, gan weithio yn y chwarel, a'r eithriad yw'r cyfnod y bu yn y fyddin ac yn ysbyty Llangwyfan. Gŵr a chariad mawr at ei fro ydoedd, a gwnaeth ei orau i'w gwasanaethu.

Yn Eglwys St Mair, lle bu'n warden am amser maith, bu'n hynod ffyddlon i'r gwasanaethau, ac i holl fywyd yr Eglwys. Cynrychiolai'r ardal ar Gyngor Plwyf Llanddeiniolen am gyfnod, a gwnaeth waith clodwiw i geisio cario allan hawliau'r ardalwyr. I unrhyw un a fu'n ei gwmni mewn Dosbarthiadau Nos neu Gymdeithas Lenyddol roedd yn aelod bywiog a doniol. Fe ddywedai yr union beth oedd ar ei feddwl, a hynny yn gwneud y drafodaeth yn hynod o ddiffr.

Er i'w iechyd fod yn fregus ni adawodd i hynny fod yn rhwystr iddo. Cariodd allan amryw o swyddi - yn y Gymdeithas Lenyddol Undebol, ac yn y Ganolfan Gymdeithasol. Bu'n gadeirydd gweithgar Pwyllgor y ganolfan am lawer blwyddyn.

COFIWCH rydym yn parhau i chwilio am DREFNYDD PLYGU

Brwydrodd i sicrhau diddosrwydd yr adeilad, a boddhâd mawr iddo oedd gweld ffyniant y clwbiau snwcer a chodi pwysau, Dosbarth Nos a Chymdeithas Lenyddol, yn ogystal â Dosbarth y Dysgwyr (o blith y Saeson) ac Eisteddfod bentref yn y blynyddoedd diwethaf hyn. Un dymuniad o'i eiddo oedd cael gweld carped ar lawr y neuadd. Codai'r mater yn aml, ond ni wireddwyd ei freuddwyd.

Roedd byd natur yn agos iawn at ei galon, a chymerai ddiddordeb mewn chwaraeon, yn enwedig pêl-droed a chriced. Cai bleser digymysg o fynd i fanceinion yng nghwmni'r meibion i wyllo cricedwyr Lloegr yn chwarae'r ymwelwyr. Ond cai fwy o bleser fyth o wyllo a gwranddo ar ffraethineb y cefnogwyr o gwmpas y maes. Yr oedd yn ŵr amlochrog ei ddiddordebau, ond pobl oedd ei ddiddordeb pennaf.


Bydd colli ei gwmniaeth yn drist. Dymunwn ddatgan ein cydymdeimlad â'r teulu. Diolch am fywyd Hugh Thomas, am ei lafur dros y blynyddoedd ac am gael adnabod ffrind mor "wych". DIOLCH: i Bwyllgor y Ganolfan am ei rodd o £5 i'r Eco er cof am Hugh Thomas. (Gol.)

ANHWYLDER: Fe'm cadwyd innau gan afiechyd, o fynychu cyrddau'r Gymdeithas Ddiwylliadol yn ddiweddar, ac ni allaf felly gofnodi'r hyn a gymerodd le.

DECHRAU WRTH EIN TRAED YM MLWYDDYN YR AMGYLCHFYD: A minnau'n ymwelydd unwaith yr wythnos â phentref Deiniolen, ar fore dydd lau fel rheol, gofid gennyf yw gweld cyflwr y brif stryd drwy'r pentref. Pan gaiff y plant afal neu oren i'w fwyta, fel rheol rhan yn unig o'r ffrwyth a fwyteir ganddynt, ac fe deflir y gweddi ar y stryd, yn lle chwilio am fasged sbwriel sydd yno er cadw'r lle yn gymharol lân.

Sylweddolwn i ninnau fod yn blant unwaith, ond rwy'n amau a oedem mor ddifeind o lendid y strydoedd. Rwy'n sicr bod athrawon ysgol sy'n gofalu am y plant yn eu cymell i barchu'r amgylchedd. Pa le mae eu hunan-barch? Fe ddichon bod rhai o'r plant yn sylweddoli gwrthuni'r peth, ond fe hoffwn ganfod fod y mwyafrif yn egniol dros gadw Cymru'n lân a difrycheulyd. Plant heddiw yw rhieni'r dyfodol. A gawn ni gofio apêl arweinwyr cymdeithasol a pholitaidd am gadw i'r dyfodol y glendid a fu.

Am bob math o
WYDR wedi'i
DORRI, DDANFON
NEU EI OSOD.
cysylltwch â
Barrys
GLASS



Camelot,
PENISARWAUN
Ffôn: Llanberis 871144

WAUNFAWR

Gohebydd: Mrs Nan Roberts, Pantafon, Waunfawr

CRONFA **CANOLFAN**
WAUNFAWR: Dyma restr o enillwyr y Clwb 300 am fis Ionawr: 1, £40 - Betty Haley, Llys Alaw; 2, £25 - T. J. Griffith, Ty'n Ronnen; 3, £10 - E. O. Hughes, 3 Bryn Golau.

Y GYMDEITHAS LENYDDOL: Cafwyd noson ddifyr a hwyliog iawn yn y ganolfan pan y bu'r aelodau yn cynnal 'Ffug Eisteddfod' a chystadlu brwd a 'safonol' ar sawl cystadleuaeth. Y beirniad, hollol di-duedd, oedd Mr Emrys Jones, Caernarfon, Ty'n Ceunant gynt, a chyda'i feirniadaethau hwyliog cyfrannodd yn dios i lwyddiant y noson.

Yr arweinydd oedd Gareth Jones a thalwyd y diolchiadau gan Mrs Margaret Owen. Yn sicr cafodd y rhai na ddaeth yno golled o gyfarfod pleserus o'i ddechrau i'w ddiwedd.

Bydd cyfarfod olaf y Gymdeithas nos Lun, mawrth 5, pan fydd aelodau'r Seiat Holi yn trafod gwahanol agweddau ar 'Gefn Gwlad' heddiw. Aelodau'r panel fydd Mr John Roberts Williams, darlledwr a chynnewyddiadurwr, Mr Dewi Williams, Prif Swyddog Ymgynghorol y Swyddfa Gymreig yng Ngwynedd, Mr Duncan Brown o'r Cyngor Gwarchod Natur, gyda Mr Dei Tomos yn gofyn y cwestiynau a chadw trefn, gobeithio. Wedi'r seiat, bydd bwffe ac os oes unrhyw aelod yn dymuno rhoi cacen, a fyddant gystal a hysbysu Rol Williams o hynny. Wedi'r cyfarfod bydd trafodaeth ar ddyfodol y gymdeithas, gan fod Rol Williams wedi datgan ei fwriad i roi'r gorau i fod yn drefnydd.

YR URDD: Llongyfarchiadau i dîm pêl-droed yr adran ar ddod yn fuddugol yn y gêm yn erbyn tîm Penmachno. Rwy'n siŵr fod Gary Davies, eu hyfforddwr yn falch iawn o'u llwyddiant. Ef hefyd sydd yn hyfforddi'r tîm pêl-droed pump bob ochr fydd yn chwarae mewn cystadleuaeth Sirol yr Urdd ym Mangor ddiwedd y mis. Diolch iddo ac i'r rhieni sydd yn mynd gyda'r tîm i'w cefnogi. Diolch hefyd i Christine Davies a Carys Jones am hyfforddi'r tîm pêl-rwyd, fydd yn cystadlu yng

nghystadleuthau sirol yr Urdd.

hwyl fawr i holl aelodau'r Urdd o'r pentref fydd yn cystadlu yr eisteddfodau'r Urdd.

LLONGYFARCHIADAU: i Tegid Pritchard, Min-y-Grug ar ei ddywedd i Samantha; i David John a Melanie, 11 Tref Eilian, ar eu priodas yn ddiweddar; i blant y pentref fu'n cystadlu yn Eisteddfod ysgol Syr Huw Owen. Llongyfarchiadau hefyd i Meilir Gwynedd, Nant, ar lwyddo yn yr arholiad piano gradd 5, ac i Helen Clough, Ynysoedd, ar ei llwyddiant yn yr arholiad theori gradd 4 gydag anrhydedd. Llongyfarchiadau hefyd i lona ac Alwen Williams, Garreg Fawr ar lwyddo yn yr arholiad theori gradd 1. Cafodd lona anrhydedd am ei gwaith.

DATHLU **PENBLWYDD:** Dymuniadau gorau a llongyfarchiadau i Joanne Tame, Stad Glyn Afon ar gyrraedd ei deunaw oed; ac i Alison Jones, Bryn Menai, ar gyrraedd ei un ar hugain oed.

GENEDIGAETH: Llongyfarchiadau i Iris a Keith, Stad Tŷ Hen ar enedigaeth merch fach, Angharad, chwaer fach i Osian, ac wyres fach i Mr Gwilym Hughes, Tref Eilian.

Llongyfarchiadau hefyd i Menna ac Elfyn ar enedigaeth mab bychan, Arwel, brawd i Rhian, Aled a Nia.

DIOLCH: Dymuna Elfyn a Menna, 6 Tŷ Hen, ddiolch i bawb am y llu cardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar enedigaeth eu mab Arwel, brawd i Rhian, Aled a Nia. Diolch hefyd am y cardiau a'r anrhegion a dderbyniodd Rhian ar ei dychweliad o'r ysbyty wedi damwain, ac yn arbennig i Mr Iolo Huws-Roberts am ei helpu, ac i feddygon Waunfawr am bob gofal. **ADREF O'R YSBYTY:** Croeso adref o'r ysbyty i'r canlynol: Rhian Griffith, Stad Tŷ Hen, fe gafodd Rhian ddamwain gyda'i beic; Mrs M. Owen, Stad Tref Eilian, a dorrodd ei chlun mewn damwain; Catrin Keller, Stad Croes-y-Waun; Mr J. Jones, Cae Adda, ac i Mr M. H. Thomas, Tan-y-Foel; hefyd i Mrs Lyons, Ael y Bryn.

COFION: Mae Mrs Katie Wyn Jones, Bron Eifion, wedi cael dod o Ysbyty Gwynedd, mae ar hyn o bryd yng nghartref nyrsio

Penisarwaun. Anfonwn ein cofion cynhesaf ati.

YN YR YSBYTY: Anfonwn gofion cynnes at Mr Thomas Williams, Bro waun, sydd yn yr ysbyty. **SWYDDI NEWYDD:** Dymunwn yn dda i Mr John Cadwaladr, Stad Glyn Afon ar ei swydd yn y banc yng Nghaernarfon, ac i Mrs Carys Jones, Morawel, yn ei swydd yn y Feddygfa yn y pentref. **CYDYMLO:** Cydymdeimlwn yn ddwys â Mrs Mona Roscoe, Tŷ Ni y ei phrofedigaeth o golli ei mam;

hefyd â Mrs Olwen Williams, Llidiart Wen yn ei phrofedigaeth o golli ei thad.

Yn y rhifyn diwethaf o'r Eco roeddem yn cydymdeimlo â Gareth, Lisabeth a Gillian yn eu profedigaeth o golli eu tad, y Dr Alwyn Miles. Gyda thristwch yr estynnwn ein cydymdeimlad â hwy eto yn eu profedigaeth o golli eu mam. Bu farw Mrs Miles yn ysbyty Eryri, bnawn Sul, Chwefror 11.

HEDDWCH A CHYMOD

Cynhelir PERERINDOD HEDDWCH A CHYMOD ar y cyd rhwng **CYMDEITHAS Y CYMOD YNG NGHYMRU** a changen Iwerddon o'r Gymdeithas ryngwladol fis Mawrth 1990. Trefnwyd y cyfarfodydd fel a ganlyn, ac apeliwn yn daer arnoch i'w mynychu yn eich ardaloedd. Bydd y siaradwyr gwadd i gyd wedi teithio cryn bellter i fod gyda ni i rannu eu profiad ac i ddysgu oddi wrthym ninnau. 'Y Ffordd ddi-drais' yw thema y Bererindod.

Sadwrn, Mawrth 17 (Gŵyl Sant Padrig): Pererinion i ymgynull gyda baneri wrth Eglwys Llanbadarn Fawr, Aberystwyth am 9.30 y bore i gyd-gerdded i Gapel y Morfa lle bydd oedfa undebol am 10.30. Pregethir gan y Parch Noel Davies, Ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwys Cymru. Bydd taith gerdded ar hyd rhodfa'r môr a gweddiau dros gymod yng Ngogledd Iwerddon a Chymru cyn cinio yng Nghanolfan Bethseilun am hanner dydd. Treulir y prynhawn yn gwrando ar y Parch David Bleakley, ysgrifennydd Cyffredinol Cyngor Eglwys Iwerddon, Denis Barritt, Cadeirydd Cymdeithas y Cymod yn Iwerddon, a David Atwood, Ysgrifennydd Cyffredinol Cymdeithas y Cymod Rhyngwladol yn sôn am agweddau gobeithiol a chymodlon yng Ngogledd Iwerddon. Bydd y cyfarfod yn diweddau am 6.30 yr hwyr. **Croeso cynnes i aelodau a**

phawb sydd o ddifri dros heddwch a thros atebion **DI-DRAIS** i broblem y mewnlifiad yng Nghymru a thrais yn Iwerddon.

Manylion pellach gan: Nia Rhosier, 2 Oak Mews, Heol-y-Dderwen, Llangollen, LL20 8RP. (Ffôn: 0978 860835)

RHOIDDION

Diolch i'r canlynol am eu rhoddion tuag at gostau cynhyrchu'r Eco.

£5 - Er côf am Mrs Lizzie Jones, Eithinog, Llanberis; £5 - Mrs D. M. Roberts, Llanberis; £5 - Pwyllgor y Ganolfan Gymdeithasol, Dinorwig, er côf am Mr Hugh Thomas.

£3 - Mrs Glenys Williams, Tyn-y-Clwt, Deiniolen, er côf.

£2 - Mrs J. Roberts, Pentre Helen, Deiniolen; £2 - Mrs J. Roberts, Elidir View, Llanrug; £2 - Mrs Alice Thomas, 1 Bro Elidir, Dinorwig; £2 - Di-enw, Waunfawr; £2 - Mrs H. Munro, 1 Lawrence Court, Corby, Northants.

£1 - Elaine Mai Williams, Pen-y-Golwg, Deiniolen.

Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmygu, Mawrth 14eg

YSMYGU YNG NGWYNEDD

- * Mae 37% o'r boblogaeth yn ysmygu
- * Mae 390 o'r boblogaeth yn marw bob blwyddyn o glefydau yn deillio o ysmygu
- * Mae 741 yn cael eu trin yn yr ysbytai bob blwyddyn o ganlyniad i ysmygu
- * Mae ysmygwyr yn costio £1,008,500 y flwyddyn i awdurdod Iechyd Gwynedd mewn triniaeth

LLEUFER O. ac N. PRITCHARD

CANOLFAN CARPEDI WAUNFAWR



DEWIS EANG O WELYAU SENGL A DWBL
DEWIS EANG O '3 PEICE SUITES'
LLENNI 'VENETIAN' A LLENNI 'ROLER'
GWAITH CONTRACT
5000 LLATHEN SGWAR O GARPEDI
MEWN STOC - ALLWCH CHI
FFORDDIO PRYNU O BATRYMAU?

Rhif Ffôn y Siop yn ystod oriau agor:
WAUNFAWR 291

AR AGOR
9-7pm
9-5pm Sadwrn
AR GAU
SUL,
MERCHER.

CABS LLANRUG



C'fon 5951

Prisiau cystadleuol
Gwaith contract
pell ac agos

LLANRUG

Gohebydd: Mrs Dyfi Jones, Tyddyn Rhuddallt (Caernarfon 76733)

PWYLLGOR APÊL YR URDD DYFFRYN NANTLLE ARFON 1990: Hoffai swyddogion Pwyllgor Apêl Llanrug ddiolch yn ddiffuant iawn i drigolion Llanrug, Ceunant a Phontrug am y croeso gawsant wrth gasglu o ddydd i ddydd at y gronfa leol. Bu'r ymdrech yn llwyddiant a'ch ymateb yn hael tu hwnt. Rydym yn fach o ddweud ein bod wedi cyrraedd ein nôd o £4,000 erbyn hyn. Roedd rhai ohonoch oddi cartref pan ddaethom at eich drws, ac os teimlwch i chi golli'r cyfle i gyfrannu, cofiwch bod y gronfa yn dal ar agor a Meinwen Lloyd y trysorydd neu Eryl Roberts yr ysgrifennydd neu unrhyw un o'r pwyllgor yn barod i dderbyn unrhyw gyfraniad o hyd. Diolch yn fawr iawn i chi i gyd.

PLAID CYMRU: Daeth Elfed Roberts, Trefnydd y Blaid yn Arfon i ymweld â'r gangen yng nghyfarfod mis Chwefror. Roedd yn noson hynod o stormus ac yn anffodus ychydig o aelodau a fentrodd allan ar y fath dywydd.

Cawsom sgwrs a thrafodaeth fywiog ac adeiladol. Pwysleisiodd y trefnydd y pwysigrwydd i'n aelodau gadw mewn cysylltiad â'r gangen drwy fynychu'r cyfarfodydd a'r gweithgareddau.

Rhoddydd y raffl gan Nan Humphreys a'r enillydd oedd Berwyn Parry Jones. Roedd Vera Williams a Meinwen Lloyd yn gyfrifol am wneud y te.

Enillwyr y Clwb Cant oedd: 1, June Jones (Caernarfon) - Rhandir Mwyn gynt; 2, John Rowlands, Llys Forgan.

Cofiwch am y Ffair Wanwyn ar nos Fercher Ebrill 25 am 7.00 o'r gloch yn yr Ysgol Gynradd. Bydd Vera Williams, Nan Humphreys, Eryl Roberts, Meinwen Lloyd neu Phyllis Ellis yn barod i dderbyn unrhyw gyfraniad at y Stondinau.

Fe drefnir yr Helfa Drysor ar Fai 16 gan Lis Roberts ac Owenna Parry.

DIOLCH: Dymuna Mrs J. Roberts, Elidir View, ddiolch i'w chymddogion a chyfeillion am eu cydymdeimlad â hi yn ei phroffedigaeth o golli ei brawd, ac hefyd am y rhoddion caredig er côf i Eglwys y Santes Fair, Dinorwig. LLONGYFARCHIADAU i Mr a Mrs Hugh Thomas, Gwenallt, ar ddod yn daid a nain. Ganwyd merch fach, Mari, i Gwyneth a Peter.

GWAELEDD: Dymunir adferiad iechyd i Mr Joseph Williams, 17 Bro Rhyddallt, sydd yn derbyn triniaeth yn Ysbyty Clatterbridge. Y GYMDEITHAS UNDEBOL: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Gymdeithas, nos Fawrth yr 20fed, gyda Mrs J. Llewelyn Williams, Bod Fair, yn llywyddu. Y siaradwraig oedd Mrs Ann Evans, Penisarwaun, yn olrhain ei hanes, ac yn chwarae rhai recordiau o'i ffefrynau.

Diolchwyd iddi gan y Parchedigion John Morris ac Erfyl Blainey, gwnaed trefniadau gogyfer â dathlu Dydd Gŵyl Dewi yn Groeslon Tŷ Mawr.

YSGOL GYNRADD LLANRUG: Fe garai plant Safon 4 ddiolch o galon i brifathro, staff a disgyblion Blwyddyn 1 Ysgol Brynrefail am y croeso gawsant yno yn ystod eu hymwelid. Diolch i Mrs Catherine Owen yn arbennig am drefnu'r diwrnod - oedd yn gymaint o help i'r plant gael rhagflas o fywyd a gwaith yn yr Ysgol Uwchradd.

Fe lwyddodd Safon 2, o'r diwedd, i dreulio bore cyfan yn yr Amgueddfa Forwrol a Seiont 2 yng Nghaernarfon. Gan arwed y tywydd gwyntog yn ddiweddar gorfu i Mrs Ann Roberts ohirio'r ymweliad gwreiddiol. Ond fe gawsant fore i'w gofio yno ac mae sawl un erbyn hyn yn gwneud cychod bach eu hunain.

Ddiwedd y mis hwn bydd Mrs Heulwen Evans yn gadael am gyfnod o absenoldeb mamolaeth. Carem ddymuno'n dda iddi gan fawr obeithio y bydd yn mwynhau hamddena am gyfnod!

Ar Chwefror 9 cawsom gyfle i groesawu timau o ddwy ysgol wahanol atom. Daeth tîm pel-rwyd Ysgol Llandegai a rhoi cweir gyntaf eleni i'n genod ni. Llongyfarchiadau Llandegai am guro o 6 gôl i 3.

Roedd y tîm pel-droed yn fuddugol o 6 gôl i 1 yn erbyn Ysgol Gwaun Gynfi. Da iawn chi hogia a chanmoliaeth arbennig i Gavin Jones am gael hatrig!

MERCHED Y WAWR: Cynhaliwyd cyfarfod mis Chwefror y gangen yn yr ysgol Gynradd ar nos Fawrth y 13eg, gyda Mrs Ann Ifans yn llywyddu. Ychydig o'r aelodau oedd yn bresennol gan fod gwaeledd, a hefyd y tywydd garw. Croesawyd Mrs Jennie Williams

yn ôl ar ôl gwaeledd, a dymunwyd yn dda i'r aelodau sy'n cwyno.

Croesawodd y llywydd aelodau o gangen Rhiwlas i ymuno â'r gangen mewn cwis o dan ofal Mr Huw Jones, Glanrhyd. Gan fod nifer aelodau Rhiwlas yn fwy na Llanrug, rhannwyd yr aelodau yn ôl dyddiad eu penblwydd, Odrif ac Eilrif, a chafwyd cwis diddorol iawn.

Diolchwyd gan Mrs N. Lovatt ar ran cangen Llanrug a Mrs Rhiannon Evans ar ran cangen Rhiwlas. Cafwyd paned ynghyd â brechdanau blasus, a diolchwyd i bawb fu'n eu darparu gan Mrs Mair Huws.

Diolchodd y llywydd i'r rhai a fu'n helpu gyda chynnwys y Llyfr Lloffion, yn arbennig Mrs Nan Humphreys am ei osod; daeth yn ail yn y gystadleuaeth.

Bydd Merched y Wawr yn gyfrifol am ddarparu'r bwyd yn Eisteddfod yr Urdd ar Fawrth 3 yn Ysgol Brynrefail. Gofynnir i aelodau am roddion o fwyd a help gyda'r Rota Weinyddu. Cysyllter â Mrs Nan Humphreys.

Bydd y cyfarfod nesaf ar nos Fawrth, Mawrth 13, yn yr ysgol Gynradd am 7.30, pryd y bydd Dathlu Gŵyl Dewi, gyda bwyd yn cael ei baratoi gan 'Galw' ac adloniant gan aelodau o'r gangen. Pris y bwyd fydd £5. Arian i law cyn Mawrth 8 i Olwen, Ann eu Nan.

CLWB IEUENCTID: Ar ddechrau mis Chwefror trefnwyd sioe ffasiwn gyda noson goffi yn y clwb i godi arian tuag at gronfa'r clwb. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i bawb a gyfrannodd i wneud y noson yn llwyddiannus, yn enwedig i'r busnesau lleol canlynol am eu cyfraniad caredig: Y Storfa, Co-op, Siop y Bont, Cigydd Wavell Roberts, Bwsiau Arvon, Crib Coch, Garej Hafod, Siop Groeslon Marc, Becws Bryngwyn a Penbont.

Cawsom drip i'r disco Valentine yn y Dome yng Nghaernarfon ar y 13eg, ac ar nos Wener yr 16eg, cymerodd aelod o'r clwb, Sophie Evans, ran mewn cystadleuaeth dawnsio disco ym Mhenygroes ac, er fod y safon yn uchel iawn, daeth yn ail yn ei hoedran.

Nos Iau yr 22ain trefnwyd bws i fynd a'r aelodau i stiwdio newydd Barcud yng Nghaernarfon.

Mae'r rhaglen ar gyfer mis nesaf yn cynnwys cystadlaethau dawnsio disco yn y Dome yng Nghaernarfon, trip i sgio yn

Llandudno, ac rydym yn gobeithio cael rhywun i ddod i'r clwb gyda drwmiau. Yn ogystal â hyn, mae pedwar aelod o'r clwb am gymeryd rhan mewn cynllun hyfforddi aelodau ar gyfer cydgyfrannu yng Nghaernarfon Penrallt yng Nghaernarfon.

DYDDIADAU I'W COFIO

28. Mercher: CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn yr Ysgol Gymuned, 7.15.

29. Iau: PENISARWAUN: Neuadd yr Eglwys, Tynnu Gwobrau Raffl.

30. Gwener: DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y band, 8.00. LLANBERIS: Te yr Henoed.

I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
40 Stryd Fawr
PORTHAETHWY
Ffôn: (93) 714043
neu
Caernarfon 4520
edau, nodwyddau
ac ati mewn stoc

**Wavell
Roberts**
CIGYDD
**LONDON HOUSE
LLANRUG**
Ffôn: Caernarfon 3574
PEN CIGYDD Y FRO
Yr ŵyn lleol mwyaf blasus
Selsig cartref, cigoedd parod
i'w bwyta
Archebion ar gyfer y rhewgist
**MYNNWCH Y GORAU
DEWCH ATOM NI!**

GRADD ALLANOL

Prifysgol Cymru

Mae Coleg Prifysgol Cymru Aberystwyth yn cynnig cynllun i oedolion sy'n dymuno dilyn cwrs gradd trwy gyfrwng y Gymraeg y tu allan i'r Coleg. Gellir astudio'r pynciau a ganlyn: Cymraeg, Hanes Cymru, Drama, Addysg, Cerddoriaeth, Llydaweg, Astudiaethau Crefydd.

Ai hwn yw'r cyfle y buoch yn disgwyl amdano?

Os carech dderbyn rhagor o fanylion ynglŷn â'r cynllun, a ffurflen gais, cysylltwch â:

A. Cynfael Lake, Swyddog y Radd Allanol, CPC Aberystwyth, Yr Hen Goleg, Aberystwyth

Gwahoddir ceisiadau gan ddarpar-fyfrwyr erbyn dechrau mis Ebrill.



+

**J.M.
JONES**
A'I FEIBION
**GWAITH
CERRIG
BEDDAU**

Y SGWÂR, LLANRUG


Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol,
Cerrig o bob
math ar gael.

Ffôn:
Caernarfon 2898
(dydd)
Caernarfon 76285
(nos)


ECO'R IFANC

LLIWIWCH Y LLUN

- 1 - COCH
- 2 - GLAS GOLAU
- 3 - OREN
- 4 - BROWN
- 5 - GWYRDD TYWYLL
- 6 - PINC
- 7 - GWYRDD GOLAU
- 8 - MELYN
- 9 - GLAS



EWCH O DDOT I DDOT



CORNEL JÔCS

Bore da, Doctor.
 A! - Bore da Musus Jones, yn gyntaf oll, anadlwch i mewn yn ddyfn, ddyfn.
 Da iawn, da iawn ... rwan ta, anadlwch allan.
 Ffffffw
 Da iawn, da iawn ... diolch yn fawr ...
 Testio fy anadl i oeddech chi, doctor?
 Be? O! Na,na ... eisiau glanhau fy sbectol oeddwn i !!!

Ha ha! Ha ha!

Del: Mam, dydy fy fflachlamp i ddim yn gweithio.
Mam: Falle mai'r batri sydd wedi rhedeg allan.
Del: Na, mae'n nhw'n dal i fod yma!

Orig: Wyt ti eisiau clywed jôc fudr?
Wyn: Oes!
Orig: Syrthiodd y dyn i ganol y mwd.

Ho ho! Ho ho!

PENBLWYDD HAPUS!

Penblwydd hapus i ti Iolo Glyn Roberts, Llanrug, yn 7 oed ar Fawrth 3. hwyl, fflag a balwns piws - oddi wrth Guto.
 Penblwydd hapus Guto Siôn ar dy seithfed penblwydd oddi wrth Iols a Meg y ci!

Llongyfarchiadau mawr i'r canlynol am waith ardderchog yng nghystadleuaeth Mis Chwefror. Daliwch ati - efallai mai chi fydd pia gwobr Mis Mawrth!! Peidiwch anghofio'ch storïau chwaith!!
 Gemma L. Jones, Llys Llywelyn, Llanrug (4 oed); Robin E. Thomas, Gwelfor, Tan-y-Coed (4 ½ oed); Lowri Fflur Larsen, 19 Stryd Fictoria, Caernarfon (5 oed); Derfel Williams, Bethel (5 oed); Emma Davies, Hafan, Gallt-y-Bont, Waunfawr (5 oed); Bethan Roberts, 14 Stryd Ceunant, Llanberis, (5 oed); Meleri Haf Ellis, Drws-y-Coed, Bethel, (7 oed); Llinos Haf Larsen, 19 Stryd Fictoria, caernarfon (7 oed); Emma Morris, 2 Maes Padarn, Llanberis (7 oed); Euriona Jones, 57 Pentre Helen, Deiniolen (8 oed); Sara Wyn Bingham, 33 Maes Padarn, Llanberis (9 oed); Margaret Karen Jones, Garnedd Farm, Deiniolen, (10 oed); Eurig Gwyn Williams, Awen Menai, Cae Gwyn, Caernarfon, (10 oed); Carys Williams, Bryn, Cwm y Glo (14 oed).

LLONGYFARCHIADAU I CHI I GYD !

CYSTADLEUAETH MIS MAWRTH

Mae 'na arlunwyr penigamp yn byw yn ardal Eco'r Wyddfa! daeth llu o geisiadau i law, a gwaith anodd iawn, iawn oedd dewis enillydd i Gystadleuaeth Mis Chwefror!

Dyma nhw'r enillwyr:

Erica Lyn Jones, 7 Ael-y-Bryn, Waunfawr (5 oed).

Catrin Pepper, Taliesin, 1 Preswylfa, Llanberis (7 oed).

Eifion Jones, gardd y Rhos, Llanrug (9 oed).

LLONGYFARCHIADAU I CHI'CH TRI - MAE'R GWOBRAU YN Y POST!!

Beth am roi cynnig ar y gystadleuaeth am y mis yma. Anfonwch eich ceisiadau i'r 'Gornel' cyn Mawrth 20.

ECO'R IFANC, PANT BRYN GWYN, TAN-Y-COED, LLANRUG.

ENW

CYFEIRIAD

OED



LLANBERIS

Gohebydd: Iola Sellers, 13 Dôl Elidir (871043)

YSGOL DOLBADARN: Bydd Ffrindiau'r Ysgol yn cynnal Ffair Wanwyn yn yr ysgol Nos Iau, Ebrill 5. Buasent yn ddiolchgar am unrhyw roddion tuag at y noson. **CLWB CANT YR YSGOL:** Os oes unrhyw un yn dymuno ymaelodi â'r Clwb Cant, cysylltwch â'r ysgol am fwy o fanylion. Enillwyr y mis dwythfa oedd: Gwyneth Parry (131); R. A. Jones (59); Charlie Saynor (125).

SEFYDLIAD Y MERCHED: Cynhaliwyd cyfarfod o'r Sefydliad yn y Ganolfan ar Ionawr 25 dan arweiniad Mrs Hannah Jones a dymunwyd Blwyddyn Newydd Dda i'r aelodau.

Darllenwyd y cofnodion a'u harwyddo a darllenwyd y llythyr misol. Penodwyd Mrs Jan Davies yn Is-lywydd.

Cydymdeimlwyd â Mrs Dwynwen Roberts yn ei phrofedigaeth fawr o golli ei gŵr; hefyd Mrs A. M. Evans ar farwolaeth ei chwaer yng nghyfraith; a Mrs Jane Jones ar farwolaeth ei brawd.

Dymunwyd gwellhad buan i Mrs Katie Griffith ac i Mrs Lizzie Jones, Coed, a oedd yn yr ysbyty.

Tynnwyd rhaglen allan am y flwyddyn yma. I ddiweddur noson cafwyd cwis wedi ei drefnu gan Mrs Hannah Jones. Y gwastwragedd oedd Mrs Katie Griffith, Mrs Glenys Jones a Mrs Betty Jones. Diolchwyd iddynt gan Mrs Hannah Jones a Mrs Helen Morris. Enillwyd y raffl gan Mrs Glenys Jones.

MAWRTH Y CYNTAF

Weli di nhw
yn eu trowsusa' streips a'u
dici-bo-teis,
a'u cadwynau aur
sy'n angori hen oriawr Taid
yn siglo ar gyfandir eu boliau?

Dacw nhw
yn hawlio esgus o Fawrth y cyntaf
i arlwyio bord gerbron blonegog wŷr;
Weli di'r rhialtwch
uwch bwrdd y llo-pasgedig-wledd?

Cenhinen y dydd yn edwino
yn nhwll botwm côd-gynffon-fain,
cwrw yn canu clodydd
a gwin yn meddwi y gân.

Edrych,
dacw Mrs Heiffened-Jones
yn ymestyn yn fronnau i gyd
o'i ffrog coban, -
sip o'r sieri, -
peswch i grafu'r llwnc.

Ust! - Sh! -
clywch lediaith pwysig lais yn
llwncdestynnu -
'hir ois i'r iêth
a Cemri fac am bith' -

Y gryduras dlawd,
roedd hi'n byw yn Stiniog
flwyddyn yn ôl.

SELWYN GRIFFITH
(Allan o'r gyfrol 'C'nafron a Cherddi
Eraill', Gwasg Gwynedd)

LLONGYFARCHIADAU i Colin a Iona Hughes ar enedigaeth eu merch fach; i Dylan Parry a fydd yn ddeunaw oed ar Mawrth 14; hefyd i Bethan Jones, Dol Elidir a Maria Willis a fydd yn ddeunaw oed yn ystod mis.

PRIODAS BERL: Llongyfarchiadau i Doreen a Dafydd Roberts, 50 Maes Padarn ar achlysur eu Priodas Berl, sef penblwydd eu priodas yn ddeng nlynedd ar hugain. **DYMUNWN** adferiad iechyd buan i'r rhai canlynol: Mrs Glenys Owen, Stryd yr Wyddfa; Mr Wilbert Davies, Rock Terrace; Mr Keith Williams, Bryn Melyn, Rock Terrace.

CYDYMDEIMLO: Cydymdeimlwn â Walter Roberts a'r teulu ac Enfys, Dafydd, Keith a Mark, Noddfa, Stryd Fawr, yn eu profedigaeth o golli mam a nain sef Mrs Nellie Roberts; ag Islwyn Jones a'r teulu yn eu profedigaeth o golli mam, sef Mrs Lizzie Jones, Coed; Mr Huw Williams, Maes Padarn, ar golli chwaer; Mr Huw Jones, Maes Padarn, a'r teulu oll yn eu profedigaeth o golli tad; â Mrs Bethan Jones a Robert Henry yn eu profedigaeth o golli priod a thad sef Mr Bobbie Jones, Dol Elidir.

DIOLCH: Dymuna Dafydd a Doreen Roberts, 50 Maes Padarn, Llanberis, ddiolch o galon i'w teulu a'u ffrindiau oll am y cardiau a'r anrhegion a gafwyd ar achlysur eu Priodas Berl (30 mlynedd) Diolch i bawb

DIOLCH: Dymuna Mrs Dwynwen Roberts, 'Rhianna', a'r teulu ddiolch i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth. Diolch am y llythyr, cardiau a'r rhoddion ariannol tuag at Multiple Sclerosis Gwynedd. **DIOLCH:** Dymuna teulu y ddiweddar Lizzie Jones, Eithinog, Llanberis, ddiolch am bob arwydd o gydymdeimlad tuag atynt. Diolch yn arbennig i'r cymdogion a ffrindiau lu a fu mor ffyddlon iddi yn ystod ei gwaeledd ac hefyd i'r rhai a fu'n gweini arni yn y ddwy ysbyty. Diolch i'r Parch Gwynfor Williams am dderbyn y rhoddion er cof amdani. Trosglwyddir £200 i Ward Gwyrfa, Ysbyty Bryn Seiont, yr wythnos yma.

K.M.P. YM MHARIS



Roedd darllen hanes pobl Llanrug ym Mharis yn yr Eco dwythfa o ddiddordeb i Helen o Corby. Roedd yn digwydd bod yno 'run pryd a

thynnodd lun y bws. Gofidiai na fuasai wedi cyfarfod y criw er mwyn iddi gael siarad Cymraeg ym Mharis.

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.
YSGOL YRRU
OFALUS

- * Gwasanaeth 7 diwrnod
- * O ddrws i ddrws
- * Control Deuol

D L
PRITCHARD
43 Glanffynnon
LLANRUG
CAERNARFON 5112
Cymeradwyr gan yr Adran
Drafnidiaeth


ROYAL
VICTORIA
HOTEL

LLANBERIS 870149

★ Bwyd da ★ Cwrw da
★ Cwmni da



FFENESTRI UPVC DRYSAU MEWN GWYN NEU MAHOGANI



Esiaml o bris a gosod

Crefftwy'r profiadol yn eu gosod
Ffoniwch am bris i

J R PRITCHARD, 14 Glanrafon,
Bontnewydd

Ffôn: Caernarfon 3507 (dydd neu gyda'r nos)

Croesawn ymholiadau gan fasnachwyr

Y GLORIAN

Tŷ Birmingham, 6 Stryd Goodman
LLANBERIS

Arbedwch bunnoedd ar eich bil siopa
wythnosol. Dewch i weld ein
amrywiaeth eang o fwydydd
Siwgr, Cawl, Blawd, Cnau, Pasta,
Fferins, Diodydd, Ffrwythau Sych,
Grawnfwydydd etc.

CEWCH BWYSO EICH BWYD EICH HUN YN ÔL
EICH ANGEN
AR AGOR BOB DYDD 9-8pm

CHIROPODIST
Gwasanaeth yn
eich Cartref

E. Ll. Parry
M.S.S.Ch., M.B.Ch.A.
57 Glanffynnon
LLANRUG

Ffôn:
Caernarfon
5754

CWM-Y-GLO

Gohebydd: Mrs Iris Rowlands, 'Glanrafon' (872275)

UNDEB Y MAMAU: Cynhaliwyd cyfarfod y mis, nos Iau, Chwefror 8 yn Hafan Elan. Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi. Trafodwyd rhai materion gan Mrs Taylor. Y gŵr gwadd oedd Mr Alun Bevan o Adran Heddlu Gogledd Cymru. Cafwyd sgwrs ddiddorol iawn gyda fideo ar drosedd a sut i'w rhwystro. Diolchwyd i Mr Bevan gan Mrs Joyce Ransom. Gwesteion y te oedd Mrs J. Williams, Mrs C. Jones a Mrs V. Jones, a diolchwyd iddynt gan Mrs Gwyneth Roberts. Rhoddwyd y raffl gan Mrs Edwards a'r enillydd oedd Mrs Kathleen Jones.

Bydd y cyfarfod nesaf nos Fawrth, Mawrth 13, yn Cwm-y-Glo.

GWELLHAD BUAN: Dymunwn wellhad llwyr a buan i Mrs Margaret Williams, Bryn, ar ôl derbyn triniaeth lawfeddygol yn ysbyty Dewi Sant.

CYDYMDEIMLAD: Estynnwn ein cydymdeimlad dwysaf â Mr B. Jones, 1 Maes Gerddi, yn ei brofedigaeth o golli brawd yn Llanberis; hefyd â Mr Glyn Tomos, arweinydd y Clwb Ieuencid yn ei brofedigaeth o golli ei dad.

DIOLCH: Dymuna Mrs Margaret Williams, Bryn, ddiolch o galon i'w theulu, ffrindiau a chymdogion, staff a phlant ysgol, cwm y Glo am y llu cardiau, blodau, anrhegion ac am y galwadau ffôn a dderbyniodd tra bu yn Ysbyty Dewi Sant ac ar ôl dod adref.

DIOLCH: Jones-Orritt. Dymuna Cynthia a Gavin ddiolch i'w teulu, ffrindiau a chymdogion am yr holl gardiau a'r anrhegion a dderbyniwyd ar achlysur eu dyweddiad.

GYRFA CHWIST: Cynhelir Gyrfa Chwist yn Ysgol Gymuned Cwm-y-Glo ar nosweithiau Merched, Mawrth 14 a 28 am 7.15 o'r gloch.

CLWB POBL Y CWM: Ar Ionawr 25 croesawyd y wraig wadd, Mrs M. E. Jones, Cricieth, gan y Llywydd, Mr Llew Hughes. Byddwn yn edrych ymlaen bob tro am ymweliad Mrs Jones, a'r tro hwn cawsom sgwrs ddiddorol ar ei hymweliad ag Ynys Enlli, yng nghwmni aelodau o Sefydliad y Merched. Disgrifiodd drafferthion y croesi o Bwllheli, a'r ymdrech i gyrraedd y bwthyn lle roeddynt i

aros am wythnos. A natur ar ei orau, cymharodd heddwch yr ynys â dwndwr a helyntion y tir mawr.

Trefnwyd gwasanaeth nos Sul, a phob un o'r aelodau'n cymeryd rhan, yn ogystal â chynnal Nosweithiau Llawen, i'r rhain daeth ychydig Saeson oedd yn gwneud gwaith ymchwil, ac un Gwyddel oedd ar ddyletswydd a phawb yn ymuno yn yr hwyl.

Oherwydd tywydd anffafriol, gorfu iddynt aros ychydig ddyddiau yn ychwanegol, ac o'r herwydd, dechreuodd y cyflenwad bwyd fynd yn isel, a rhaid fu dibynnu ar fwydydd tun i lenwi'r angen.

Diolchodd y Llywydd i Mrs Jones am sgwrs ddifyr.

Llongyfarchwyd Mrs G. Chick ar ddod yn nain am y tro cyntaf.

Mrs M. Rowlands a Miss M. Davies oedd yn gyfrifol am y baned a'r Raffl, a enillwyd gan Mr Llew Hughes.

Pnawn o Bingo gafwyd ar Chwefror 8, gyda Mrs Enid Price yn galw.

Mrs K. Watkins a Mrs G. Chick oedd yn gofalu am y baned a'r raffl, ac enillwyd y raffl gan Mr Russell Rowlands.

YSGOL GYMUNED CWM-Y-GLO

YMWELYDD: Yn ystod y mis diwethaf, gwelsom P.C. Dewi Thomas yma yn trafod diogelwch yn gyffredinol. Rhoddodd sawl gwers i ni ar gadw ein hunain a'n heiddo yn ddiogel. Y syndod mwyaf a gawsom oedd gweld pamor 'handi' oedd y cyffion yn mynd am arddwn drwgweithredwr.

Bu Mrs Glenda Hughes o'r Coleg Normal yma am ddiwrnod. Edrychwn ymlaen at ei gweld yn dod yma eto.

SALWCH: Ar hyn o bryd mae ein 'Hanti Margaret' yn sâl. Mae wedi bod yn yr ysbyty yn cael triniaeth. Dymunwn adferiad buan iddi ac mae pawb yn anfon swsus filoedd iddi.

Tra mae Anti Margaret yn sâl, croesawn Mrs Marjorie Roberts yma yn ei lle.

DAWNSIO: Mae pump o blant yr ysgol, sy'n aelodau o'r Urdd, yn brysur yn ymarfer ar gyfer y Dawnsfeydd yn y Prif Seremoniau.

Edrychwn ymlaen at yr Eisteddfod i'w gweld ar y llwyfan.

Y PLANT HYNAF: Cafodd plant Safon 4 ddiwrnod buddiol iawn yn Ysgol Brynrefail. Choeliwch chi byth, ond 'd aeth neb ar goll yno.

Yr wythnos yma, mae'n dawel iawn yn yr ysgol gan fod Safon 3 a 4 wedi mynd i Goleg Glynllifon - i weithio nid ar wyliau!! Dydw i ddim yn siwr pwy sy'n cael yr amser gorau - nhw yno - neu fi yma!!

Wel, dyna ni am y tro. Rhaid cau pen y mwdwl eto - i mi gael mynd i chwarae efo'r cyfrifiadur newydd.

Gyda llaw, os ydy mam Tony Roberts yn darllen hwn - 'Mi wna i gario'ch bagiau chi, os hoffech chi. Mi wnawn i unrhyw beth i fynd i'r Merical!!'

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN Llanberis 870484

- ★ Bysiau o 12 i 53 sedd
- ★ Teithiau Lleol a Thramor
- ★ Gwaith Contract
- ★ Telerau arbennig i bensiynwyr, myfyrwyr a phlant ysgol

SIOP

Nwyddau Gardd
Cynnyrch Cartref
Crefftwaith



CANOLFAN
GARDDIO
Blodau, Grug
Alpau, Perthi

ANTUR WAUNFAWR

Ffôn: Waunfawr 721

Cynnal a Chadw Gerddi Meinciau Concridd a Phren
Cynnal a Chadw Planters Concridd a Phren
Plannu Coed Corachod



43-45 STRYD
FAWR
LLANBERIS
Ffôn: 871278



hefyd yn ystod y dydd



Y MAES
CAERNARFON
Ffôn: 673075



CRIB COCH

Y Sgwâr, Llanrug
Ffôn: Caernarfon
76772

TRIN GWALLT I
BAWB O'R TEULU
GAN JEN

Ffoniwch neu galwch
i drefnu amser

Am waith
PEINTIO, ADDURNO
a mân atgyweirio oddi mewn
neu tu allan am bris rhesymol
cysyllter ag

ERIC JONES

17 BRYN TIRION

PENISARWAUN

Ffôn: LLANBERIS 872421

THE BIKE MAN



Birmingham House,
Stryd Goodman
LLANBERIS

- ★ Beics newydd a brisiau disownt
- ★ Trwsio beics
- ★ Beics Ail Law
- ★ Rhannau sbâr
- ★ Llogi Beiciau Mynydd

PENISARWAUN

Gohebydd: Mrs Ann Evans, Sycharth (872407)

LLONGYFARCHIADAU: i deulu 12 Bryntirion ar enedigaeth mab bychan, Colin, brwd bach i Paul a Kathleen.

Pob dymuniad da i Sharon Owen, sy'n dathlu ei phenblwydd yn 21 oed ar Chwefror 21.

DIOLCH: Dymuna Sioned Roberts, Tai Croesion, ddiolch i'w theulu, ffrindiau a chymdogion am y llu cardiau ac anrhegion ar achlysur ei phenblwydd yn 18 oed ar Ionawr 26.

GWELLHAD: Dymunir gwellhad buan i bawb sy'n teimlo'n sâl, brysiwch wella. Mae'r gwanwyn wrth y drws a siawns na chawn dywydd teg gyda hyn.

APÊL URDD EISTEDDFOD NANTLE AC ARFON: Diolchir i bawb a fu'n barod i gynnig Llety a Chroeso i blant Cymru yn ystod Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd yng Nglynllifon. Er mwyn cyrraedd ein nod o £1,500 at yr Eisteddfod y mae tocynnau raffl ar werth gan aelodau'r Pwyllgor, 50c am lyfr - gyda gwobrau da. Tynnir y raffl yn Neuadd yr Eglwys, nos Iau, Mawrth 29.

PWYLLGOR NEUADD: Nos Iau, Ionawr 25 cafwyd noson hwyliog a difyr yn Neuadd yr Eglwys. Bu'r plant o bob oedran yn gwneud llun o Stori Dwynwen a chynllunio cerdyn Dwynwen. Cafwyd arddangosfa liwgar o deisennau Dwynwen hefyd. Diolchir i staff yr ysgol am eu cydweithrediad. Diolchir yn arbennig i'r beirniad caredig, Arwel Jones - roedd ganddo air bach o ganmoliaeth i bob cystadleuydd.

Tynnwyd Clwb Cant Ionawr, a'r enillwyr oedd: 1, Mr J. O. Jones, Bryntirion; 2, Mrs M. Rees Thomas, Bod Awen; 3, Mrs Annie Williams, Meillionydd. Enillydd y raffl, rhoddedig gan Mrs Delyth Williams, oedd Ann Ifans.

Tynnir Clwb Cant Chwefror mewn Pwyllgor ddiwedd y mis. Gobeithir trefnu Noson Gymdeithasol, yng ngofal Arwel Jones, nos wener, Ebrill 27 yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis. Croeso cynnes i bawb, yn cynnwys plant. Fe geir y manylion eto. Enwau i Ann Ifans neu unrhyw aelod o'r pwyllgor.

YSGOI TAN-Y-COED: Rydym yn falch o ddeall fod Eryl yn gwella, anfonir ein cofion anwylaf ato a brysied yn ôl i'r ysgol.

Yn dilyn cywaith safon 1 a 2 am 'Trychfil y Trydan' bu'r plant ynghyd â safon 3 a 4 yn ymweld â'r Mynydd Trydan yn Llanberis Ail agorwyd Amgueddfa'r Gogledd, Chwefror 5, ac am 10 am bu'r plant yn gwrando ar Myrddin, y dewin Cymreig anhygoel, gyda help y dechnoleg ddiweddaraf yn eu gwahodd i ymuno ag ef ar daith ryfeddol yn ôl i'r gorffennol pell. Ymwelwyd â'r Celtiaid, Derwyddon, Rhufeiniaid, Seintiau, Tywysogion a Beirdd ar y daith. Yna cyflwyniad dechnolegol gyffrous yng Ngorsaf Bŵer Dinorwig lle esbonnir y dull a ddefnyddir i harneisio pŵer dŵr yn Llanberis a chyfle i ymweld â chanol yr orsaf ei hun yn ddwfn ym mherfeddion y mynydd. Do, gydag Anti Jean ac Anti Nia y ein tywys fe gafodd pawb daith

fythgofiadwy.

Nos Iau, Mawrth 1, am 6.00 pm yng Nghapel Bosra, cynhelir Gwasanaeth Gŵyl Ddewi gan blant yr ysgol. Croeso cynnes i bawb. Gwneir casgliad at ward y plant, Ysbyty Gwynedd, Bangor. **CAPEL BOSRA - YSGOL SUL:** Braf yw cael ymflachio yn y ffaith fod rhif yr aelodaeth yn cynyddu. Pleser oedd gweld Haydn Jones ac Iwan Williams yn ymuno â'r Ysgol Sul ac yn ymuno yn y gwrando a'r canu.



Siôn Rees Williams, Allt Riwth, Llanrug, a urddwyd â gradd Ll. B. (Hons) yn Huddersfield yn ddiweddar. Mae Siôn ar hyn o bryd yn gwneud erthyglau gyda chyfreithwyr yng Ngogledd Lloegr.

URDD BENTREF: Diolchir i bawb a ddaeth atom yn ystod y flwyddyn. Dymunir pob lwc i'r plant sy'n cystadlu yn yr Eisteddfod ac i'r rhai sy'n cymryd rhan yn y pasiant a'r dawnsio. Diolchir hefyd i'r rhai a fu'n eu dysgu.

Dyma weithgareddau'r tymor:
Chwefror 20: Sgwrs gan Mr Aled Taylor, Waunfawr.

Chwefror 27: Fy Hoff Beth.
Mawrth 6: Noson yng ngofal Miss Amranwen Lynch.

Mawrth 13: Ymweliad gan aelod o'r Frigad Dân.

Mawrth 20: Arlunio gyda Mr Islwyn Williams.

Mawrth 27: Noson yng ngofal Mr R. Humphreys. Bydd y cyfarfod hwn yn dechrau am 5.30 pm.

Ebrill 4: Parti diwedd tymor a Disgo, nos Fercher, yn Neuadd yr Eglwys.

**WELDIO OFFER FFERM
A PHEIRIANNAU
DIWYDIANNOL
GWNEUD GIATIAU,
FFENSYS AC ATI
AR GYFER Y CARTREF
ATGYWEIRIO TAI
GWAIR
E. PUGH
WELDING &
FABRICATING
32 GLANFFYNNON
LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 5394**

BEDYDD ESGOB



Naw o bobl ifanc plwyf Penisarwaun a Llanddinorwig a dderbyniodd Fedydd Esgob yn Eglwys Santes Helen, Penisarwaun, dydd Sul, Chwefror 11, 1990.

O'r chwith i'r dde: Rhes gefn - Sioned Lewis, Yr Esgob Cledan Mears, Darryl Williams, Elizabeth Ann Jones, Siân Elen Thomas.

Rhes flaen - Huw Tomos, Cerys Parry, Hayley Williams, Nia Lewis, Catherine Griffith a'r Parch Tegid Roberts. Heb fod yn y llun, ac a gonffyrmiwyd hefyd yr un diwrnod, oedd Mrs Rhian Price Hughes a Mrs Elaine Jones.

YSGOL FEITHRIN: Trefnwyd cael cyfarfod agored nos Fawrth yr 20fed o Chwefror yn Ysgol Tan-y-Coed i geisio dechrau Ysgol Feithrin gydag athro neu athrawes drwyddedig lle y gallai rhieni adael eu plant am ddwy awr.

Gan fod oed dechrau'r ysgol wedi codi i 4 oed ar ddechrau mis Medi penderfynwyd fod digon o alw am Ysgol Feithrin ac felly etholwyd Pwyllgor i gario ymlaen gyda'r trefniadau.

Os oes unrhyw riant neu warchodwr â diddordeb mewn dod â'u plentyn i'r Ysgol feithrin ym

mis Medi ac heb ddod i gysylltiad hyd yn hyn byddwn yn falch iawn o glywed ganddoch mor fuan ag sydd bosibl - cewch ffonio Mrs Wendy Phillips ar 870909 neu Mrs Alwena Leadbitter ar 870453.

Hoffwn gymeryd y cyfle yma i ddiolch yn fawr iawn i Mr Humphreys, Y Prifathro, a Llywodraethwyr Ysgol Tan-y-Coed am eu llwyr gyd-weithrediad.

LLONGYFARCHIADAU i Marian a Gareth ar enedigaeth eu merch fach, ac yn arbennig i Mrs Eluned Jones, Cae Corniog, ar fod yn nain am y tro cyntaf.

CARTREF NYRSIO PENISARWAUN

★28 Stafell Wely Sengl gyda thy bach a lle ymolchi

★2 Stafell Wely Ddwbl gyda "en suite" (delfrydol i barau priod)

★Gwres canolog llawn

★Sustem ddiogelu rhag tân

★Eisteddfa fawr gyfforddus efo teledu lliw

★Sustem alw nyrs

★Yn Cwrdd â phob angen personol

★Lle bwyta mawr

★Aros cyfnod hir/byr

★Gofal 24 awr y dydd gan staff proffesiynol

★Croesawir rhai gyda cymorth D.H.S.S.

★Ymwelwyr yn cael galw unrhyw adeg

★Coginio cartefol

★Metron a staff sy'n siarad Cymraeg

★Ar lwybrau bws o Fangor a Chaernarfon

Am fanylion pellach cysylltwch â'r
Metron Cheryl Williams, Ffôn 872038.

SPAGHETTI BOLOGNESE, SABRINA - A CHYMRU - AM BYTH!

Cefais fy symud i'r siop lyfrau 'Magenta' yng nghanol Milangan Signora 'Y Ddraig' Borghello, oherwydd yn ei meddwl hi roedd y gwaith yn rhy gymhleth i mi. Dw i'n meddwl roedd hi wedi sylwi mod i wedi dysgu geiriau newydd yn rhy sydyn o lawer. Doedd Signora Borghello (Y Rheolwr) ddim yn gadael i neb siarad, chwerthin, eistedd, na pigo trwynau yn y siop. Dim munud o seibiant i'w gael.

Yr unig seibiant oeddwn yn gael oedd pan oeddwn yn gorfod mynd i lawr grisau i siarad Saesneg gyda'r ymwelwyr, oedd mewn trafferth, wrth gwrs!

Mewn 4 wythnos ddaru rhywbeth fy nharo fi fel melltlen - ac mae'n dal i gnoi yn fy stumog. Y peth yw hyn. Pan oedd y bobl Saesneg yn dod i fewn i'r siop, dyma nhw'n gofyn yn llond eu cegau: 'Where's the Cathedral?' 'What bus do I take to the station?' - gan orfodi pobl i siarad Saesneg. Iddynt hwy, mae pawb yn deall Saesneg. Ddaru nhw ddim ymdrechu o gwbl i ofyn yn Eidaleg - iaith y wlad. Pe baent wedi ymdrechu, buaswn yn hanner maddau - ond ddaru nhw ddim!! Iddynt hwy mae Saesneg fel cerdyn American-Express - pawb yn gorfod ei dderbyn a'i adnabod trwy'r byd i gyd. Ar adegau roeddwn eisiau dweud wrth y bobl yma lle i fynd - ond roedd well i fi beidio, neu buaswn wedi cael blas mesur 10 'stiletto' y Signora o dan fy nhin. Poenus iawn!

Rwan dw i'n sylweddoli mae'r un peth yn digwydd adref. Nid yw'r bobl ddieithr yma yn deall Cymraeg oherwydd maent heb ymdrechu. Felly rydym ni yn ateb bob tro yn Saesneg - neis, neis. Pum Cymro ac un Sais yn gweithio mewn swyddfa. Y Cymry i gyd yn siarad Saesneg, neis neis. Mynd i siopio i Fangor, gofyn i bawb yn Saesneg rhag ofn mae nhw ddim yn deall

Cymraeg, neis neis!! Rwan rwy'n sylwi rydym rhy neis o lawer - rhaid newid.

GEIRIAU SAESNEG

Yn yr Eidal mae'n anhygoel gweld yr ifanc gyda diddordeb mor gryf i ddysgu Saesneg. Ym mhobman mae hysbysebion yn herio pawb i ddysgu iaith y dyfodol. Mae Milan yn llawn o ysgolion sut i ddysgu Saesneg, a silffoedd y Warws yn orlawn gyda llyfrau am yr iaith Saesneg. Roeddwn wedi gwylltio wrth weld yr iaith Saesneg yn ael gymaint o sylw wrth feddwl am sefyllfa'r iaith adref. Rwan, fel sydd wedi digwydd yn y Gymraeg, mae geiriau Saesneg yn cael eu defnyddio yn rhy hawdd yn yr Eidal. Pethau fel 'Weekend', 'fifty-fifty', 'hobby', 'country', 'drink', 'privacy' a.y.b. Mae geiriau Eidaleg da yn lle y rhai yma, ond mae pobl wedi ei wneud yn ffasiynol i ddefnyddio'r geiriau Saesneg. Pan fydd mwy a mwy o eiriau Saesneg yn dod o hyd i le yn yr iaith Eidaleg, gwaethygu wna'r iaith. Yng Nghymru, gyda help yr holl bapurau a rhaglenni Saesneg o'n cwmpas mae'r union r'un peth wedi digwydd. Mewn effaith, mae popeth o'n cwmpas yn Saesneg. Felly mae yn fwy ffasiynol dweud y geiriau Saesneg, pan mae geiriau Cymraeg da ar gael. Mae hyn yn bechod mawr.

EIDALEG YN DYSGU CYMRAEG

Trwy fy ffrind Pedr y bont yn Llundain nes i ddod i adnabod Laura Columbo o Legnano, tref fychan ger Milan. Mae Laura, Eidales, wedi bod yn dysgu Cymraeg ar ben ei hun ers 2 flynedd. Byd bach ynde!

Un dydd Sul cefais wadd drosodd i'w thŷ am ginio. Cefais groeso cynnes, sws ar bob boch, mae bron iawn pawb yn ei wneud yma. Dw i byth yn cwyno fel arfer, ond pan mae Nain yn

cael gafael arnaf gyda'r hen ddannedd gosod rhydd yn clecian mae'n gallu bod yn anghyfforddus. Ond calonnau o aur sydd ganddynt i gyd.

Mae Laura yn hogan gyfeillgar iawn yn amlwg mewn cariad gyda'r byd Celtaidd. Ar ôl sgwrsio am oes a hanner, cawsom ein galw at y bwrdd - Mamma Mia, bron iawn i fi ddisgyn oddi ar fy nghadair. Llond y lle o fwyd iawn. Ychydig o pasta, wedyn y cig, yr hufen iâ, ffrwythau - ac i orffen yr hen goffi cryf. Lwmp o sgram, cinio dydd Sul go iawn. Yn yr awr roeddwn yn bwyta, wnes i ddim dweud dim gair - stwffio fy ngwyneb gormod. Stwff da hefyd! Cadw fi fynd am o leia bythefnos. Diolch yn fawr iawn.

Dyma'r amser pwysig yn cyrraedd - y wers Gymraeg. Roeddwn wedi dychryn gyda gymaint roedd hi wedi dysgu. Gallai ddweud y geiriau yn dda a creu brawddegau. Roedd hi yn ysu bob tro i wybod mwy. Roeddwn yn falch iawn i weld rhywun gyda diddordeb mor iach yn fy iaith a fy ngwlad. Ar ôl tair awr roedd hi yn gallu dweud yr amser yn berffaith - dim problemau o gwbl. Roedd hi wth ei bodd.

HANES CYMRU

Dyma hi yn dechrau sôn am hanes Cymru - ac i fod yn onest, roeddwn i ar goll! Mae hi'n gwybod mwy o hanes Cymru na fi. Felly nes i newid y pwnc a son am y bwyd!

Dyma fi'n gofyn wrthyf fy hun. Pam dw i ddim yn gwybod hanes fy ngwlad? Dw i erioed wedi cael gwers hanes Cymru yn yr ysgol - o Ysgol Gwaun Gynfi i Ysgol Brynrefail, Llanrug.

Mae'r Eidalgwyr yn falch o'u gwlad a'u hiaith, oherwydd maent yn dysgu hane eu gwlad mewn pob oes! Sut ddaru'r Eidal ddod yn wlad annibynol, y brenhinoedd, y rhyfeloedd a datblygiad yr iaith.

Mae Cymru gyda gymaint o gestyll, mae'n siwr mae yna hanes diddorol iawn pam maent yna. Yn y newyddion, rydym yn clywed cyn gymaint am Glyndwr. Yr unig beth rwy'n

gwybod am yr hen hogyn yw efe oedd tywysog olaf Cymru - dim byd arall. Fuaswn yn falch fuasai rhywun yn gallu dweud i mi pam nid yw hanes Cymru yn cael ei ddysgu yng Nghymru? Pam? Pam? Pam yw'r cwestiwn pwysig? Yw cael gwybod yr ateb yn bwysig? Fuaswn wedi dysgu am hanes Cymru, fuaswn yn gallu siarad gyda Laura am fy ngwlad.

Yn yr hostel yn Padova ger Venice, nes i gyfarfod Peter Francis o Dublin, cymeriad a hanner. Mae ei frawd Neil yn chwarae rygbi i Iwerddon. Wrth weld y ddraig goch ar fy sach, dyma fo yn gofyn beth yw y stori y tu ôl i'r ddraig. Roedd wedi dychryn wrth glywed rwyf erioed wedi cael gwers ar hanes Cymru yn yr ysgol. Mae'r Gwyddelod hefyd yn cael gwersi hanes am eu gwlad. Lle rydym ni wedi camgymeryd? Neu yn unig fi?

DIWEDD Y DAITH

O'r diwedd mae rhan o fy nhaith yn yr Eidal wedi dod i ben. Dw i'n gwybod mewn rhai rhannau o'r llythyr mae'r neges yn drwm ac yn gryf - ond mae'r pethau yma wdi fy nharo yn galed wrth weld sut maent yn digwydd yma, ac wedyn, yn digwydd adref.

Wrth fod gyda hiraeth mawr am bawb a'r ardal adref, rwyf wedi gorfodi fy hun i sgwennu'r llythyr yma i gadw rhyw fath o gysylltid.

Rwan rwy'n gwerthfawrogi yn fwy byth bywyd mewn pentref Cymreig, ac yn sylweddoli mor lwcus rwyf yn gallu siarad Cymraeg - Does dim llawer ohonym ar ôl.

Fel yma dw i'n teimlo! Sut ydych chi yn teimlo am eich gwlad??

Rwan rhaid i fi frysio i ddal trêni i Palermo, tref y Mafia. Mae Roberto o'r teulu Mafia Cottello wedi rhoi gwadd i fi am baned a gem o gardiau. Dw i'n siwr mae nhw eisiau gweithio gyda'r Meibion. Pwy?? Meibion Pottrelli - hogia sy'n gwerthu Ferraris yn Glan Gwna. Dw i'n meddwl?!

Hwyl a Ciao!

Am wasanaeth fframio
cyflawn - LLUNIAU
TYSTYSGRIFAU,
TAPESTRY:-
ELWYN PRITCHARD
Fframiwr Lluniau/
Telynau Gwynedd
**Parc Padarn
LLANBERIS**
870922 neu Bangor 351427
cesglir a danfonir i'ch
cartref os dymunwch

E.W.Pritchard CENTRAL GARAGE Llanberis

Ffôn: 870202 a 870272

TREFNWYR ANGLADDAU
CEIR AR GYFER PRIODASAU
GWASANAETH TACSI

OSMOND SHAW DEINIOLEN

GWERTHU

- TRWSIO

★ Teledu

★ Fideo

★ Offer Trydan

Gwasanaeth

Ffôn 24 awr

LLANBERIS 870545

CANIATÂD CYNLLUNIO YN ARFON WLEDIG

Dros yr wythnosau a'r misoedd diwethaf rhoddwyd sylw yn y Wasg leol i nifer o benderfyniadau gan Bwyllgor Cynllunio Cyngor Arfon. Roedd mwyafrif yr adroddiadau yn tynnu sylw at geisiadau cynllunio a ganiatawyd gan aelodau'r Pwyllgor Cynllunio; a hynny'n groes i farn broffesiynol swyddogion cyflogedig y cyngor, a hefyd yn groes i wahanol bolisiau cynllunio y Cyngor ei hun.

Ar wahan i ardaloedd Nant Peris a Betws Garmon/Salem (sydd dan reolaeth cynllunio Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri), a Bethel/Saron (sy'n rhan o Gynllun Lleol Afon Menai); mae holl ardal dalgylch 'Eco'r Wyddfa' yn ddarostyngedig i bolisiau Cynllun Lleol Arfon Wledig.

Beth yw Cynllun Lleol Arfon Wledig, a beth yw ei bwrpas? Yn ychwanegol i ddatblygu polisiau ac amcanion cyffredinol Cynllun Fframwaith Sirol Gwynedd, mae hefyd yn 'gosod sylfaen gadarn i reoli datblygiadau.' Ei fwriad yw rheoli datblygiad tir, sef y defnydd cyhoeddus a'r defnydd preifat a wneir ohono. Y mae'r cynllun lleol felly yn gofalu am leoli a darparu tai newydd, safleoedd gwaith, cyfleusterau siopa a chyfleusterau hamdden, yn ogystal a darparu cyfleusterau cymdeithasol. Mae hefyd nifer o bolisiau yn canolbwyntio ar gadw ansawdd ac ymddangosiad cefn gwlad.

Y polisiau yn ymwneud â thai, o bosibl, yw'r rhai pwysicaf. Yn wir, mae'r Cyngor ei hun yn cydnabod hynny o fewn y Cynllun: 'amlder a dosbarthiad tai newydd a godir yw'r materion pwysicaf a benderfynir.' Ond y mae nifer o benderfyniadau Pwyllgor Cynllunio Cyngor

Arfon dros y misoedd diwethaf ynglŷn â lleoliad tai newydd wedi bod yn hollol groes i'w polisiau eu hunain.

Rhaid cydnabod wrth gwrs, fod cymal o fewn yr adran ar Dai yn y Cynllun Lleol yn nodi fod 'amgylchiadau eithriadol' yn cyfiawnhau caniatáu goddefiad. Ond yng ngeiriau'r Cynllun ei hun, mae'r amgylchiadau eithriadol hynny yn rhai sy'n debygol o fod yn gysylltiedig â chreu swyddi.

Y cwestiwn sy'n gofyn am ei ateb yw a oedd pob un o'r ceisiadau a ganiatawyd dros y misoedd diwethaf am dai newydd o'r tu allan i ffiniau pentrefi yn gysylltiedig â chreu swyddi? Ac os nad oeddynt, yna ar ba sail yr oedd cynghorwyr, nid yn unig yn dadlau'n groes i farn broffesiynol eu swyddogion cynllunio, ond hefyd yn pleidleisio i ddiystyrru eu polisiau cynllunio eu hunain?

O ystyried mai amcan y Cynllun Lleol yw gosod sylfaen gadarn i reoli datblygiadau, yna mae'n ymddangos fod cyfres o benderfyniadau diweddar ar ran y Pwyllgor Cynllunio yn ddull simsan tu hwnt o adeiladu ar y sylfaen hwnnw. Ac y mae hyder y cyhoedd yng ngallu'r cynghorwyr i ddod i benderfyniadau dilys yn pylu.

Y BEIBL CYMRAEG NEWYDD

Argraffiad ychwanegol ar gais Eglwysi Cymru

Ymhen dwy flynedd ar ôl y cyhoeddi gwreiddiol, a thros 65,000 o Feiblau eisoes wedi eu gwerthu, parhau y mae'r galw yng Nghymru am argraffiadau pellach o'r Beibl Cymraeg Newydd.

Yn dilyn trafodaethau rhwng Cydbwyllgor Cyfieithu'r Beibl i'r Gymraeg a Chymdeithas y Beibl, cyhoeddir ar Ddydd Gŵyl Dewi eleni (1 Mawrth 1990) argraffiad print bras o'r Beibl yn cynnwys yr Apocryffa. Cyhoeddwyd eisoes, yn Hydref 1988, ddau argraffiad (y naill mewn clawr caled a'r llall mewn clawr o ledr cywasg) print bras o'r Beibl heb gynnwys yr Apocryffa.

Dyma newydd da i'r eglwysi hynny yng Nghymru a fu'n galw'n daer am Feibl yn y fersiwn Cymraeg newydd, gan gynnwys yr Apocryffa, a fydd yn addas ar gyfer y pulpud a'r ddarllefa.

Bydd yr argraffiad print bras hwn o gymorth hefyd i ddarlennwyr gwan eu golwg, ac yn unol a pholisi'r Gymdithas o gynnig yr Ysgrhythurau i bawb am bris y gallant ei fforddio, cynigir disgownt o 25% i'r sawl sydd wedi eu cofrestru fel personau rhannol-ddall.

Y mae gan Gymru bellach gymaint a deg o wahanol argraffiadau o'r Ysgrhythurau yng Nghymraeg rhywiog, naturiol y fersiwn cyfoes y rhoes y genedl a'i

heglwysi y fath groeso brwd iddo.

Wedi ei rwymo mewn lledr cywasg du gydag ymylon arian i'r dalennau a chan gynnwys tudalen cyflwyno, tudalennau i gofrestru digwyddiadau teuluaid, a rhubanau nodi lle, bydd yr argraffiad Print Bras o'r Beibl Cymraeg Newydd yn cynnwys yr Apocryffa ar gael mewn siopau llyfrau da o Fawrth 1 1990 ymlaen, a'i bris fydd £49.95

BARA CAWS YN CYFLWYNO 'LILITH'

Ar ôl trafod y stâd briodasol gyda'i sioe ddiweddar 'Siarad Hefo'r Wal' y mae Theatr Bara Caws unwaith eto yn rhoi priodas dan y chwyddwydr yn ei sioe newydd 'LILITH'.

Priodas a grewyd yng Ngardd Eden y tro hwn. Adda ac Efa medda chitha. Naci - Lilith! Hi oedd gwraig gynta Adda. Beth ddigwyddodd iddi ynte? Wel, crewyd Lilith fel Adda o lwch y llawr i fod yn gyfartal iddo ond nid oedd Adda yn fodlon ar hyn, a chwynodd wrth Dduw amdani. Gwylltiodd hithau a throi yn ddeamones gan hedfan i ffordd i wâl y deamoniaid yn y Môr Coch. Fano y mae byth yn dial ar holl blant Efa ...

Tamaird o chwedl ddifyr felly, ond ai chwedl sydd yma'n unig, neu a yw Lilith y ddeamones hanner gwraig, hanner tylluan sgrech yn dal yn ein plith ... yn dal i ddial?

I gymeriad canolig y ddrama, Catrin, y mae Lilith yn fyw ac yn real, yn fygythiad pendant i'w phlentyn, ei phriodas, ac yn wir ei holl fodolaeth. Mae'r Parchedig Gwilym Davies yn ogystal yn gorfod cwestiynnu sail ei grefydd a phwrpas ei alwedigaeth yn y nawdegau.

Mae'r chwedl yn sgytio byrwyd sawl un. A yw'r chwedl yn bod oherwydd yr angen amdani ynte bodolaeth y chwedl a greodd yr angen? Yr wy ta'r iâr?

Yr actorion yw:

JANET AETHWY,
SIW HUGHES,
VALMAI JONES,
JOHN GLYN OWEN,
TOM RICHMOND, gyda
CHARMIAN SAVILL yn
cyfarwyddo.

Gellwch weld perfformiad o'r sioe yn Theatr Gwynedd o Nos Fawrth i Nos Sadwrn, Mawrth 13-17 am 7.30.

Archebwch eich tocynnau mewn da bryd, peidiwch a cholli'r cyfle i'w gweld!

*Sylwer, nid yw'r cynhyrchiad yma yn addas ar gyfer plant iau.

Am fwy o fanylion, ffoniwch: Linda, Bangor (0248) 355579.

GARTH MAELOG

PET CENTRE AND GROOMING SALON

Bwyd ac anghenion
Anifeiliaid anwes bychan
Pysgod dwr oer
Offer pysgota

Molchi, cribo a chlipio
cwn a chathod
o bob math
gan arbenigwr

STRYD FAWR, LLANBERIS 870840

CYMDEITHAS HANES BRO ECO'R WYDDFA

Canolfan Cwm-y-
Glo, Mawrth 20fed
am 7.00

"Mae Hanes
i Hwn ..."

Croeso cynnes i bawb

Emyr Jones


PLYMAR A
PHEIRIANNYDD
GWRESOGI

Cynnal Boileri nwy,
olew, tanwydd solat
a thredio peipiau

44 Glanffynnon
LLANRUG
Caernarfon 3513



BILL ac EILEEN GRIFFITHS



Antiques
Ivy Cottage
BETHEL

Ffôn:
Y FELINHELI 670556

PRYNWYR A GWERTHWYR HEN BETHAU

Telir prisiau da
Trafodir busnes yn gwbl breifat a chyfrinachol





Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru

Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990

STIWARDIO 28 MAI – 2 MEHEFIN

LLETY! LLETY! LLETY!

Mae Eisteddfod Genedlaethol Urdd Gobaith Cymru, Dyffryn Nantlle ac Arfon ar y trothwy. Ychydig fisoedd sydd ar ôl a daeth yr amser i wneud y paratodau manwl. Caiff yr Eisteddfod ei chynnal ym mharc hardd Glynllifon gyda Choleg Glynllifon ei hun ond taflad carreg o'r fan. Cewch gyfle i grwydro'r llwybrau sy'n amgylchynu'r Coleg a sylwi ar y paratodau diddorol sydd wedi eu creu yn ystod y flwyddyn neu ddwy olaf yma. Bydd y Maes Carafannau mewn lle hwylus o fewn muriau Parc Glynllifon. Yng Nghaernarfon y cynhelir y rhagbrofion yn Ysgolion Maesincla a Syr Hugh Owen a gwneir trefniadau arbennig i gludo'r cystadleuwyr i Glynllifon.

Os hoffwch stiwardio yn ystod yr wythnos naill ai yn y rhagbrofion neu ar y maes cysylltwch â Gareth Jones, Prif Stiward, Glyn Ceris, Stad Bodhyfryd, Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4YT.

Os gwnewch un sesiwn cewch fynediad i'r maes am ddim y diwrnod hwnnw. Os gwnewch ddau sesiwn mewn dydd cewch docyn bwyd a mynediad i'r maes. Beth amdani? Cyfle i gyfarfod a phlant a phobl Cymru benbaladr.



Eisteddfod Genedlaethol
Urdd Gobaith Cymru

Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990

STIWARDIO 28 MAI-2 MEHEFIN, 1990

At: Gareth Jones, **Prif Stiward**,
Glyn Ceris, Stad Bodhyfryd,
Waunfawr, Caernarfon, Gwynedd, LL55 4YT

ENW: _____

CYFEIRIAD: _____

FFÔN: _____

OED: 16-25 / dros 25 (dileer yr amherthnasol)

Annwyl Gyfaill,

Byddaf yn barod i weithredu fel Stiward ar faes yr Eisteddfod ar y dyddiau a'r amserau a ganlyn. (Rhodder X yn y blwch/blychau priodol).

Ceidw'r Pwyllgor yr hawl i addasu'r amserlen isod ond hysbysir pob stiward o leiaf wythnos cyn yr Eisteddfod am unrhyw newidiadau a effeithia arno ef.

	7-11	10.30-2.30	2.30-6.30	6-10	Unrhyw amser
SADWRN 26 Mai				7.30-11.30	
SUL 27 Mai		10-12	2-4		
LLUN 28 Mai					
MAWRTH 29 Mai					
MERCHER 30 Mai					
IAU 31 Mai					
GWENER 1 Mehefin					
SADWRN 2 Mehefin					
SUL 3 Mehefin				7.30-10.30	

Dychweler i'r cyfeiriad uchod cyn gynted ag y bo modd, erbyn 1 Ebrill 1990 fan bellaf, os gwelwch yn dda.

Rhwng Mai 28 a Mehefin 2 fe fydd Dyffryn Nantlle ac Arfon yn gartref dros dro i rywle o gwmpas tair mil ar ddeg o blant ac ieuencid Cymru, a ddaw yma i Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd, a gynhelir yng Nglynllifon yr wythnos honno. Fe fydd angen llety i o leia bum mil ohonyn nhw.

Yn y gorffennol mae ieuencid a phlant y fro wedi cael croeso ar aelwydydd led-led Cymru wrth i'r Eisteddfod gartrefu yn y gwahanol ardaloedd, eleni ein tro ninnau ydi croesawu plant ac ieuencid y genedl i ardaloedd godre'r Wyddfa, ac am wythnos fe fydd 'o gopa'r Wyddfa i lawr i'r traethau', nid yn unig yn wlad i ti a mi, ond hefyd yn gartre i lawer o'n cyd-Gymry.

Ar hyn o bryd mae'r Pwyllgor Llety a Chroeso sy'n gyfrifol am drefnu'r llety wrthi'n brys yn trefnu a chasglu addewidion am lety, ac mae'r cyfan yn dibynnu ar ein haelioni ni. Tybed felly a fyddwch chi'n fodlon derbyn rhai o gystadleuwyr yr Eisteddfod am noson neu ddwy a chynnig swper ysgafn, gwely a brecwast yn rhad ac am ddim i rai ohonyn nhw? Os oes modd i chi gymeryd mwy nag un, yna gorau'n byd, gan nad ydi plant yn hoffi mynd i gartrefi diarth ar eu pennau eu hunain.

Os medrwch gynorthwyo, yna wnewch chi gysylltu ar unwaith â Eysyllt Jones Davies (0286 880579), neu Beti Griffith (0286 880524) neu Gwyneth Parri (0286 5616).

BRYNREFAIL

Gohebydd: Miss Lowri Prys Roberts, Godre'r Coed. 870580

BEDYDD: Fore Sul, Chwefror 18, yn ystod yr oedfa yng Nghapel M.C. Brynrefail, bedyddiwyd Ifan Peredur, mab Mr a Mrs Bleddyn Owen, 1 Rhes Fictoria, Deiniolen, ac wyr i Mr a Mrs Glyn Owen, Tros yr Afon. Gweinyddwyd y sacrament gan y Gweinidog, y Parch John Morris a'r tad a'r fam fedydd oedd Mr Richard Davies, Brynsiencyn, a Miss Lola Llywelyn Griffith, Deiniolen.

CYDYMDEIMLAD: Mae'n cydymdeimlad yn ddwys â Barry a Kim Davies, Creigle, yn eu profedigaeth o golli Michael Roy, eu hannwyl faban newydd-anedig yn Ysbyty Dewi Sant, Bangor ar Chwefror 12. Bu'r angladd yn Eglwys Crist, Llandinorwig, ddydd Sadwrn, Chwefror 17.

GWAELEDD: Rydym yn dymuno adferiad llwyr a buan i Mr Glyn Owen, Tros yr Afon yn dilyn triniaeth lawfeddygol yn Ysbyty'r Brifysgol, Caerdydd.

MARWOLAETH: Roedd yn drist gennym ddeall fel pentrefwyr am farwolaeth ddisyfyd un o gyn-weinidogion Eglwys M.C. Brynrefail, sef y diweddar Barch

W. Bryn Roberts, ar Chwefror 16. Symudodd y Parch Bryn Roberts a'r teulu o garmel yn 1955 yn weinidog ar ofalaeth Brynrefail a Chwmyglo a gwasanaethodd y ddwy Eglwys am gyfnod o ddeng mlynedd. Roedd yn berson o argyhoeddiadau dwfn ac yn weithiwr egniol a diflino ymhob agwedd ar waith y weinidogaeth yn y pentref a'r fro. Oddiar 1965 bu'n gweinidogaethu ar eglwysi yn ardal Wrecsam a Llanarmon-yn-Iâl, cyn ymddeol i ardal Y Ffôr ac yna i Ddinbych yr Hydref diwethaf. Mae ein cydymdeimlad yn ddwys â'i briod a'r plant a'u teuluoedd yn eu profedigaeth.

CRONFA APÊL EISTEDDFOD YR URDD: Mewn pwyllgor a gynhaliwyd nos Fawrth, Chwefror 20fed, cafwyd adroddiad o sefyllfa ariannol y Gronfa Apêl leol tuag at Eisteddfod yr Urdd Dyffryn Nantlle ac Arfon 1990. Hyd yma fe gasglwyd y swm o £309 a chan fod yr Eisteddfod ar y trothwy, mae'n fater o frys ein bod fel ardal yn gwneud ymdrech arbennig i geisio cyrraedd y nôd o £700 cyn dechrau Mehefin. I gyflawni hyn, pasiodd y Pwyllgor i gynnal Taith Gerdded Noddedig, nos Lun, Ebrill 2il i gychwyn am 6.30 o'r gloch. Dosberthir y ffurflenni gan swyddogion y Pwyllgor Apêl ac erfynnir am gefnogaeth frwd gan gerddwyr a noddwyr i'r ymdrech hon.

- Jig i Atgyweirio Cyrff
- Tiwnio Crypton
- MOT
- Ail-Sbreo
- Tracio
- Balansio Olwynion
- Gwasanaethu
- Cymysgu Paent
- Gwerthu Ceir Newydd ac Ail-law
- Partiau Renault
- Petrol ESSO a DERV
- Sigarennau a Melysion
- Calor Gas

PRIF GYNRYCHIOLWYR



YNG

NGWYNEDD

Perchennog: E.P. Hughes

MODURDY DOLYDD

GROESLON Ffôn: Llanwnda 830562

Peidiwch â Gori
ar Stori!

Rhowch hi i'ch
Gohebydd Lleol

ACHAU gan Y Gwalch

Yr haf dwaetha roeddwn i wedi mynd i mewn i Gaffi Mac allan o'r gwres am funud, am banad ac eclan, ac yr oedd yna rhyw fachgan wrth y bwrdd nesa, mewn het wellt a chôt lian. Roedd o'n edrych i'r gwagleoedd ac yn cwffio hefo sigaret. Gyda hynny mi ddaeth yna ddyn arall ac eistedd gyferbyn â fo, a fedrwn i ddim peidio â chlywed y sgwrs a ddeilliodd o'r cyfarfyddiad.

'Mae hi'n deg allan 'na.'
'Tydi hi hefyd deudwch.'
'Welais i ddim ohonach chi yn y fan yma o'r blaen.'

'Chydig iawn fydda i'n ddwad i lawr rwan.'

'Ydach chi'n dwad o bell?'
'Yr ochr draw 'na.'

'O - tewch a deud. Chydyg ydw i'n nabod y ffordd yna wedi mynd rwan.'

'Pobol newydd sy'n mhob man ynte.'

'Ia'n tad. Mi fuo fi'n gweithio hefo rhyw foi o'r ochra yna - Wil rwbath oedd ei enw fo. Wil Dreifar fyddan ni yn ei alw fo.'

'O - wn i. Wil Nel Bol Camal chwadal nhwtha. Brawd Jac Nel Bol Camal. Mi fydda'r hen Nel yn mynd i olchi i bobol hyd y fan'na.'

'Roeddwn i'n meddwl mai'r cnwd yna oedd nhw. Rhoswch chi. Ddaru Jac ddim priodi hefo rhyw wraig weddw hefyd?'

'Do dyna chi. Meri, merch Dafydd Cyflath Tena. Dyna i chi lob oedd hwnnw. Mi stopiodd y trên gwds unwaith hefo'i grafat.'

'Tewch â deud!'

Do'n tad. Peth rhyfadd na fasach chi wedi gweld ei hanao; roedd o yn y papura i gyd yr adag honno.'

'Sgin i ddim cof wyddoch chi. Oedd yna helynt?'

'Oedd yn tad. Mi wnawd cês arno fo wyddoch chi, gan y lein, ond dwad yn rhydd wnaeth o.'
Sut felly?'

'Ddim digon o dystiolaeth ydach chi'n gweld. Chawson nhw byth hyd i'r crafat.'

'Methu deall ydw i sut medrodd o ei stopio hi yn y lle cynta.'

'Roedd o'n llwytho glo yn y seidin a'r injan yn codi dŵr. Mi stwffiodd ei grafat i lawr ei chorn hi.'

'Mi allasa fod wedi achosi llanast.'

'Gallasa - dyna oedd pawb yn ddeud. Onibai am Sam, Harri Coes Ceiliog, mi fasa'r boular wedi chwythu medda nhw. Mi agorodd hwnnw y falf mewn pryd.'

'Y fo oedd y stesion mastar yr adeg honno ynte?'

'Sam, Harri Coes Ceiliog. Ia, dyna chi.'

'Pwy briododd o hefyd deudwch?'

'Hariat, merch Magi Lladd ei Hun. Hynny ydy - roedd rhai yn deud mai byw tali yr oedd nhw.'

'Doedd gan honno ddim plentyn o rhywun hefyd?'

'Oedd. Dic, hogyn Ioan Fegyn Fawr. Mi fuo yn chwara'r harmoniam ym Methania am flynyddoedd nes yr aeth ei olwg o.'

'Ydy o wedi ei gladdu deudwch?'

'Pwy - Dic?'

'Naci Ioan.'

'Ydy ers tro. Mi fuo fi yn ei gnebrwn o. Wel hynny ydy, cael ei losgi wnaeth o wyddoch chi, ac yr oedd 'na wasanaeth adag taflu ei lwch o.'

'Yn lle y gwnaed hynny?'

'Yn y capal. Roedd o wedi dymuno cael tywallt ei lwch i lawr peipia'r organ.'

'Nefi fawr! Wnaethon nhw hefyd?'

'Doedd ganddyn nhw ddim dewis yn nagoedd, i gario ei dymuniad o. Ond mi fuo raid i ni ganu'r emyn ddwaetha yn ddigyfeiliant.'

Ar hynny daeth merch â phanad o de i'r darfelydd.

'Mi af i rwan,' meddai'r llall, 'i chi gael llonydd hefo'ch panad. Pwy gaf i ddeud welis i hefyd?'

'Huw Ifans ydw i. Ond Huw Jini Busnas Pawb mae pawb yn fy nabod yn y fan acw.'

DRAENOG



POBL LÂN DINORWIG

Yn sgîl yr holl sôn am lendid ynglŷn â bwydydd, da deall fod rhai o bobl Dinorwig yn credu fod angen glanweithdra ynglŷn â phopeth. Ond a oes angen berwi pob papur decpunt cyn talu'r insiwrans? A sut flas tybed oedd ar y pwdin wedi i'r Frenhines a Florence Nightingale gael eu coginio hefo fo? Rhyw fath o Queensine newydd?

DYCHWELIAD Y DERYN MAWR

Bydd llyfr newydd John E. Williams, **DYCHWELIAD Y DERYN MAWR**, yn ymddangos o Wasg Carreg Gwalch ar Wyl Dewi. Casgliad ydyw o naw ar hugain o straeon a sgysiau dwys a doniol a fu yng nghwrs y blynyddoedd yn 'Yr Eco', 'Pais', y 'Countryman', neu a ddarlledwyd ar Radio Cymru.

Mae ynddo gyflwyniad gan R. Alun Eavns, BBC, Bangor, a nodiadau am Gruffydd Jones, y

Deryn Mawr o 'Hen Atgofion', W. J. Gruffydd.

Mae'r llyfr yn cychwyn fel hyn: 'Mae 'na rai yn dal ar gael sy'n mynnu fod mantell Gruffydd Jones y Deryn Mawr neu'r Barwn Munchausen wedi syrthio arnaf fi. Gobeithio mai camsyniad mae nhw; mae o'n gyfrifoldeb rhy arswydus i'w goleddu. Dyna pam y byddaf yn falch o daro ar rai sydd â mwy o gymhwysdar i ysgwyddo'r baich ...' Pris y llyfr yw £2.90.

CLWB FFERMWYR IFANC

Ar nos Fawrth, Ionawr 23, Miss Buddug Jones o FFWAG oedd ein gwestai yn y clwb. Roedd yn siarad am goedwigoedd a bywyd gwyllt ar y fferm.

Nid oedd clwb yr wythnos ganlynol, sef Ionawr 30, oherwydd bod cystadleuaeth nofio yn cael ei chynnal. Roedd gan clwb caernarfon dîm llawn yn cystadlu. Y tîm oedd: Robin Warrington - dan 16; Bethan Jones - dan 16; Ruth Parry - dan 16; Aled Jones - dros 16; gail Warrington - dros 16.

Cafodd y tîm 6 cyntaf, 1 ail ac 1 trydydd.

Ar y nos lau canlynol, Chwefror 1, roedd cystadleuaeth Badminton a tenis bwrdd yn cael ei chynnal yng Nghaernarfon. Y tîm badminton oedd: Eurwyn Jones a Gail Warrington a'r tîm tenis bwrdd oedd Elwyn Parry a Gwen Jones.



Cafodd Gwen drydydd yn ei dosbarth hi.

Yn yr orsaf dân oedd y clwb yr wythnos ganlynol, sef Chwefror 6. cawsom fynd o amgylch yr orsaf i weld sut mae'r galwadau yn cael eu trin. Roedd yn noson ddiddorol iawn.

Cystadleuaeth Pŵl a Dartiau oedd yn cael ei chynnal ar y dydd lau canlynol, Chwefror 8. Eurwyn Jones ac Alwyn Jones oedd yn chwarae pŵl a Nia Lyn Jones oedd yn chwarae dartiau.

CWMNI GLENGETTIE YN NODDI CYSTADLAETHAU LLYFRAU I BLANT

Bydd y tîm buddugol yn Rownd Genedlaethol y Cystadlaethau Llyfrau Cymraeg i ysgolion cynradd yn derbyn gwobr arbennig eleni wedi'i noddi gan gwmni Te Glengettie. Bydd yr enillwyr yn ymweld ag Amsterdam a gobeithir trefnu iddynt gyfarfod awduron plant enwog o'r Iseldiroedd megis Paul Biegel, awdur *Y Capten Bach* a *Parti'r Eliffant* ac Els de Groen, awdur *Whishgit!*.

Oherwydd ei gysylltiadau Cymreig mae Cwmni Glengettie yn falch iawn o gael noddîr gystadleuaeth eleni. Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf daeth Cwmni

Glengettie yn eiddo i David Lloyd Piggott trwy groser o Gymro ac yn y pumdegau uniaethodd y cwmni â'r farchnad Gymreig. Ers 1987 Cwmni Premier Brands yw perchennog Glengettie a bu'r cwmni'n awyddus iawn i gadw nodweddion y te gan ei gymysgu i fod yn addas ar gyfer dŵr Cymru. Mae Glengettie wedi bod â rhan amlwg mewn sawl digwyddiad ac elusen lleol yng Nghymru ac mae Menna Lloyd Williams yn falch iawn fod y cwmni yn noddî gweithgarwch yn gysylltiedig â darllen plant.

SIMNEIAU GWael? CRACIAU? MŴG A HOGLA' TARO PERYGLUS?

Cysylltwch â Dave Wood

'INSULAF LUE'

Yr Arbenigwr ar leinio simneiau

FRON HEULOG, DINORWIG
Ffôn: Llanberis 871376



YSTORFA MINFFORDD STORES
GAEATHRO
GAERNARFON
YR HEN BOST 1887-1987
AR TYRPEG 1817-1886

Nwyddau Groser
Prynwyr a Gwerthwyr Hen Bethau

Dyddiadur y Mis

MAWRTH

1. **Iau, Dydd Gŵyl Dewi:** PENISARWAUN: Capel Bosra, Gwasanaeth Gŵyl Dewi gan blant yr Ysgol 6.00

LLANRUG A LLANBERIS: Plaid Cymru, Dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis.

2. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

3. **Sadwrn:** YR ARDAL: Eisteddfod Cylch yr Urdd yn Ysgol Brynrefail.

5. **Llun:** WAUNFAWR: Y Gymdeithas Lenyddol yn y Ganolfan - Seiat Holi.

6. **Mawrth:** DEINIOLEN: Undeb y Mamau, 7.00.

LLANRUG: Y Gymdeithas Undebol - Dathlu Gŵyl Ddewi yng Ngroeslon Tŷ Mawr.

PENISARWAUN: Yr Urdd. Noson yng ngofal Amranwen Lynch.

8. **Iau:** DEINIOLEN: Sefydliad y Merched - Swper Gŵyl Ddewi.

9. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

13. **Mawrth:** LLANRUG: Merched y Wawr - Swper Gŵyl Ddewi. CWMYGLO: Undeb y Mamau.

14. **Mercher:** CWMYGLO: Gyrfa Chwist yn yr ysgol Gymuned, 7.15.

YR ARDAL: Diwrnod Cenedlaethol Dim Ysmygu.

15. **Iau:** DEINIOLEN: Merched y Wawr - Cinio Gŵyl Ddewi yng Ngwesty Fictoria, Llanberis.

16. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

LLANBERIS: Te yr Henoed.

YR ARDAL: Clwb Eryri yng Ngwesty Gwynedd, Llanbris, 7.30.

20. **Mawrth:** PENISARWAUN: Yr Urdd - Arlunio gan Mr Islwyn Williams.

23. **Gwener:** DEINIOLEN: Bingo yn Ystafell y Band, 8.00.

27. **Mawrth:** LLANRUG: Gornest Talwrn y Beirdd yn Festri Pontrhythallt.

PENISARWAUN: Yr Urdd - Noson yng ngofal R. Humphreys, 5.30.

Castell Cidwm



Dewch i gael bwyd ym **Mwyty'r Pys-gotwyr, GWESTY CASTELL CIDWM** ar lan Llyn Cwellyn. **Coginio Prydeinig**, yn gynnwys wahanol. **Gwinnoedd diddorol. Tân Coed. Clustogau Cyfforddus. Golygfeydd Hardd.** Lle rhagorol i ymlacio.

Betws Garmon, Ffôn: Waunfawr 243

BRYN

(B & K Williams)

Hen Ysgol
Glanmoelyn

LLANRUG

Ffôn 77482 (dydd)
870793 (nos)

Gwneuthurwyr Ffenestri,
Drysau, Grisiau neu
unrhyw fath o gynnyrch
coed. Y coed meddal wedi
derbyn triniaeth arbennig i
wneud iddynt bara.



CARTREF YR HENOED

CARTREF NEWYDD COFRESTREDIG
AG IDDO AWYRGYLCH GYMREIG
CYSYLLTWCH Â MRS MEIRWEN
THOMAS NEU MRS ELI WILLIAMS

Ffordd yr Orsaf, Llanrug, Caernarfon
(0286) 4652

W.J. GRIFFITH

PLYMAR A GOSODWR
GWRES CANOLOG
PANT TIRION, LLANRUG
Ffôn: Caernarfon 673248

Gosodwyr
Nwy
Cofrestedig
Corgi



Aelod o'r
Association of
Plumbing and
Mechanical
Services
Contractors

Dim un dasg rhy fychan
Dim un dasg rhy fawr

AM DEITHIAU CYFFORDDUS, DIOGEL A
RHAD YM MHRYDAIN A THRAMOR ...



BYSIAU ARFON LLANRUG

(Eric Morris)

Ffôn: Caernarfon 5175 77858

GLASLYN ANTIQUES

STRYD FAWR, LLANBERIS

PRYNIR A
GWERTHIR

Hen Bethau, Darluniau
a Dodrefn y gorffennol



FFÔN:

LLANBERIS

870080

Arwel Roberts

3 Erw Wen,

CAEATHRO

673014



GLANHAWR

SIMNE

Os yw'r llwch yn y simne
Yn drwch uwch y tân
Down atoch â phleser
l'w sgubo yn lân

GLADRAGS LLANBERIS

PAM MYND I
GAERNARFON,
BANGOR AC
YMHELLACH
HEFO DILLAD I
BOB OED A
MAINT YMA'N
LLANBERIS AM
BRISIAU BAR-
GEN ?

Be ga i'n bresant?

Dewch yma am
* Dillad Merched
* Dillad Dynion
* Dillad Plant
* Dillad Gwlad
* Mohair ac Aran
* Dillad Lledr
* Dillad Isa
* 'Accessories' fel bagiau
* a llawer mwy

CYNNIG
ARBENNIG



Yn rhatach os
dangoswch yr
hysbyseb hon

GALWCH I BRYNU BARGEN!

GWYNETH ROBERTS

84 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870491

PAENT, PAPUR WAL
TEGANAU, CARDIAU
MELYSION
ANRHEGION



Bara Ffres
Teisennau

Priodas, Bedydd

Pen-blwydd ac ati,
Peis, Rholiau Sosej,

Pasteiod, Teisennau Hufen,

Teisennau Plât, Torth Gyrains etc.

BECWS ERYRI

Stryd Fawr, Llanberis 870491

CHWARAEON

ANRHYDEDD I COLIN

Daeth Alan Caughter, ymgynghorydd Addysg Gorfforol y Sir i Ysgol Brynrefail yn ystod y mis i gyflwyno cwpan Athletwr y Flwyddyn, Ysgolion Gwynedd i Colin Jones, disgybl yn y bumed flwyddyn ag sydd a'i gartref ym Mhontrug.

Fe gofnodwyd llwyddiannau Colin droeon ar dudalen ôl yr Eco, ac mae'n werth eu hailadrodd, gan mai ar sail ei berfformiadau yn ystod tymor rhedeg traws gwlad y llynedd y dyfarnwyd y teitl iddo gan Gymdeithas Athletau Ysgolion y sir.

Fe'i dewiswyd i gynrychioli ei wlad ym mhencampwriaethau Ysgolion Prydain, ac ef oedd y cyntaf o'r Cymry i gwblhau'r cwrs

yn y räs i fechgyn dan 17 oed. Mae'n dal i gystadlu yn yr un oedran eleni, ac mae'n ymddangos fod Colin, sydd eisoes wedi cael tymor eithriadol o dda, yn siwr o brofi mwy o lwyddiant cyn diwedd y flwyddyn.

Llongyfarchiadau calonnog iddo. Yn y llun isod mae Mr John Grisdale, prifathro newydd yr Ysgol yn cyflwyno'r tlws i Colin.



PYSGOTA Adroddiad H. P. Hughes

Bydd y tymor newydd o 'sgota ar yr afonydd yn dechrau ar Fawrth 3ydd, a mawr yw'r gobaith y bydd yn well na'r llynedd. Tybed beth fydd hanes Crawia eleni, gan gofio am y difrod a wnaed ddiwedd Mai pan dywalltwyd llond lori o sment i'r afon yno? Fe ddirwywyd y troseddwy'r swm o £3,000 gan Ynadon Caernarfon/Gwyrfa, ond ni fydd yr arian o lës i'r pysgod.

Nid yw'r rhai fu'n gyfrifol am wenwyno miloedd o gywion eog a sewin yn y Galedffrwd eto wedi ymddangos o flaen eu gwell, a mawr yw'r gobeithion y daw iawndal sylweddol i'r gymdeithas am eu colled.

Bu nifer o'r aelodau yn poeni hefyd am yr effaith y gall glaw asid fod yn ei achosi, ond does dim achos i bryderu yn ôl yr awdurdodau, efallai am nad oes coed pinwydd yn tyfu ar hyd y glannau.

Gobeithir gweld dechrau adeiladu'r ddeorfa yng Nghrawia cyn bo hir, ac mae'r gymdeithas yn awyddus iawn i sicrhau cymorth i godi'r adeilad. Cysylltwch ag unrhyw aelod o'r pwyllgor os gallwch eu helpu.

Methiant fu ymgais y gymdeithas i sicrhau un o'r trwyddedau i rwydo eogiaid yn y Fenai. Yn olaf, cofiwch mai Mawrth 1af yw'r diwrnod olaf i gael tocyn lleol am £40, bydd yn costio £60 ar ôl hynny.

Y STORFA LLANRUG

(Richard a Meirwen Williams)

Ffôn: Caernarfon 2790

Sylwch ar ein horiau agor hwylus:

Sul 9 - 12.30
Llun - Gwener 7.30 am - 6 pm
Sadwrn 8 am - 8 pm

Nid oes unrhyw dâl am ddanfôn ordor i'ch cartref yn ardal Llanrug.

GWASANAETH FIDEO PROFFESIYNOL AR GYFER UNRHYW ACHLYSUR

- * Dyweddïad
- * Priodas
- * Pen-blwydd
- * Bedydd
- * Drama
- * Carnifal

Am fwy o fanylion cysylltwch â John Blight LLANBERIS 872 209


CHWARAEON YSGOL BRYNREFAIL PÊL-DROED

Ymhlith y nifer o bêldroedwyr addawol sy'n dod drwy'r ysgol ar hyn o bryd, y mae Ian Hughes, o Lanberis. Mae'n ddisgybl yn y bedwaredd flwyddyn, ac yn aelod o'r tîm dan 16 oed yn ei bentref.

Ar y 4ydd o Chwefror fe'i dewiswyd i chwarae yn nhim dan 15 oed Ysgolion Gogledd Cymru yn erbyn Ysgolion Dulyn o'r Ynys Werdd, ym Mae Colwyn, a deallir iddo gael gêm dda iawn, er mai colli o 3 gôl i 1 wnaeth tîm y Gogledd.

Bu Ian hefyd, ynghyd â Gavin Allen o Ddeiniolen, yn chwarae i dim dan 15eg oed Ysgolion Arfon yn erbyn Ysgolion Wrecsam. Colli fu eu hanes o 2 gôl i 1.

Mae Gavin yn aelod hefyd o dim dan 14eg oed Ysgolion Gwynedd, ac fe sgoriodd mewn buddugoliaeth o 4 gôl i 0 mewn gêm brawf yn erbyn tîm dan 15eg oed Ysgol Syr Hugh Owen. Mae'n edrych ymlaen bellach am y gêm nesaf, sef yn erbyn Clwyd.



RHEDEG TRAWS GWLAD

Yn nhreialon traws gwlad Ysgolion Gwynedd, bu Colin Jones, fel y disgwyliid yn fuddugol yn y räs i fechgyn dan 17eg oed, ac fe ddaeth ei chwaer, Carolyn, a welir yn y llun gyferbyn yn drydydd yn y räs i enethod dan 15eg oed.

Bydd y ddau yn cynrychioli Ysgolion Gwynedd ym mhencampwriaethau Ysgolion Cymru yn y Drenewydd ar Fawrth 3ydd. Pob lwc iddynt.



PWY SY'N GWYBOD CWIS BACH ARALL I'CH DIDDORI - CEWCH YR ATEBION Y MIS NESAF

1. Ym mha gêm y byddai Oakland yn chwarae yn erbyn Green Bay?
2. Pa dim pêl-droed sydd wedi cynrychioli dwy wlad wahanol yng nghystadleuthau cwpanau Ewrop?
3. Pwy oedd y Cymro Cymraeg a enillodd fedal aur yng ngemau Olympaidd 1964, ac ar pa gamp?
4. Pwy oedd pencampwr 'pot black' cynta'r BBC?
5. Ym mha flwyddyn ddaeth Cassius Clay (Muhammad Ali) yn bencampwr pwysau trwm y byd mewn bocsi?
6. Ym mha gêm y mae Anatoliy Karpov a Robert Fischer yn bencampwyr?
7. Fe enillwyd y tlws criced i bentrefi, y 'Samuel Whitbred Village Cricket Championship' gan dim o Ogledd Cymru yn 1980. Gan bwy?
8. Ym mha gamp y daeth Nelli Kim yn fyd enwog?
9. Un ceffyl yn unig sydd wedi ennill y dair räs, y 2,000 guineas, y Derby a'r St. Ledger, ers 1935. Enw'r ceffyl a'r flwyddyn, os gwelwch yn dda.
10. Pwy oedd pencampwr y byd mewn tenis bwrdd yn 1929 a hefyd yn bencampwr tenis lawnt Wimbledon yn 1934?

Aled Jones

Peiriannydd
Gwres Canolog
a Phlymio

4 Bryn Eglwys
Penisarwaun
Ffôn: Llanberis
871047

W.H. JONES TRYDANWR

Green Bank
Stryd Fawr
LLANBERIS

FFÔN:
LLANBERIS 871470

Contractau
Weirio Tai
Cawodydd Trydan
ac ati